HM Government

# Strategaeth Dioddefwyr

Cyhoeddwyd Medi 2018
Cm 9700

HM Government

# Strategaeth Dioddefwyr

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyhoeddwyd Medi 2018

Cm 9700

OGL

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon,
**ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn victimsstrategy@justice.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o'n gwefan https://www.gov.uk/government/publications/victims-strategy

ISBN Print: 978-1-5286-0780-3

CCS0818407350

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair gan y Prif Weinidog** 6

**Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder** 7

**Crynodeb Gweithredol** 8

**Cyflwyniad** **10**

**Pennod 1:** Gwelliannau cyffredinol i brofiad dioddefwyr 17

**Pennod 2:** Cefnogaeth ar gael p'un ai yw dioddefwyr yn adrodd trosedd neu beidio 22

**Pennod 3:** Os bydd dioddefwr yn adrodd am drosedd 28

**Pennod 4:** Proses y llysoedd 34

**Pennod 5:** Wedi'r llys 39

**Atodiad 1:** Ein dull 43

**Atodiad 2:** Datganiad cydraddoldeb 45

**Atodiad 3:** Geirfa 46

**Atodiad 3:** Ôl-nodiadau 48

# Rhagair gan y Prif Weinidog

Mae bod yn ddioddefwr troseddau yn brofiad gofidus iawn i unrhyw un, yn aml yn gadael creithiau – corfforol neu feddyliol – sy'n parhau am nifer o flynyddoedd wedi'r digwyddiad.



Ni ddylai profiad unigolyn o'r system cyfiawnder troseddol fyth gyfrannu at waethygu trawma o'r fath. Yn hytrach, fel yr eglurom yn ein maniffesto, mae gan holl ddioddefwyr troseddau'r hawl i wybod fod y wladwriaeth yn eu cefnogi. Y bydd eu cwynion yn cael eu hystyried o ddifrif. Ac y bydd eu barnau nid yn unig yn cael gwrandawiad, ond yn cael eu clywed a gweithredu arnynt.

Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud cryn dipyn i sicrhau bod hynny'n digwydd, er enghraifft trwy gyflwyno'r Panel Dioddefwyr a tharo goleuni yr oedd mawr ei angen ar droseddau a gafodd ddigwydd yn rhy hir o'r golwg ac o feddyliau pobl – er enghraifft camfanteisio'n rhywiol ar blant a chaethwasiaeth fodern.

Gan adeiladu ar y cynnydd hwnnw, y strategaeth hon yw'r cam diweddaraf o ran sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gefnogaeth maent angen trwy gydol eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol.

Wrth ei chreu rydym wedi gwrando ar ddioddefwyr a'u teuluoedd, edrych yn ofalus ar y problemau a wynebont a gweithio gyda nhw i ganfod atebion. Er nad oes y fath beth â throsedd arferol neu ddioddefwr arferol, mae'n amlwg fod nifer o ddioddefwyr wedi cael profiadau oedd yn brin o'r hyn yr hoffem weld.

Rydym wedi clywed gan ddioddefwyr oedd yn cael y system cyfiawnder troseddol yn amhosibl o anodd ei lywio a deall: gan bobl na chafodd wybod beth oedd canlyniad yr achos roeddynt yn rhan ohono, a gan ddioddefwyr a adroddodd drosedd a dilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddwyd iddynt, ond na chafodd wybod am hawliau fel yr hawl i wneud Datganiad Personol y Dioddefwr neu i herio dedfryd rhy drugarog.

Taclo problemau o'r fath a sicrhau y cefnogir dioddefwyr troseddau ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol yw hanfod y strategaeth hon. Ac, oherwydd bod hawliau yn ddiystyr heb y modd i'w gorfodi, mae'r strategaeth hefyd yn sefydlu sut ydyn ni'n bwriadu gwarchod hawliau dioddefwyr mewn cyfraith.

Oherwydd, er bod brwydro troseddau a chadw pobl yn ddiogel a sicr ymysg dyletswyddau cyntaf unrhyw lywodraeth, nid yw'n ddigon i ddim ond dal a chosbi troseddwyr: rhaid i ni hefyd gefnogi eu dioddefwyr.

Rhaid i ni ei gwneud yn haws i bobl sydd wedi dioddef trosedd i ymdopi, adfer a symud ymlaen gydag ailadeiladu eu bywydau. Trwy edrych ar y system cyfiawnder troseddol trwy lygaid y dioddefwr, bydd y strategaeth hon yn gwneud hynny.

Mae hefyd yn gam arwyddocaol ymlaen i'r system ac i ddioddefwyr eu hunain – ac yn un a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol iawn i nifer o fywydau am flynyddoedd i ddod.



**Y Gwir Anrhydeddus**
**Theresa May AS**

**Prif Weinidog**

# Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Ni fydd y mwyafrif ohonom yn dod i gysylltiad uniongyrchol gyda'r system cyfiawnder troseddol. Ar yr achlysuron prin pan fyddwn, mae'n debygol y bydd hyn oherwydd ein bod yn ddioddefwr troseddau.



Yn dilyn pob trosedd, a thu ôl i bob ystadegyn troseddau, mae yna ddioddefwyr gwirioneddol a theuluoedd sy'n rhoi'r darnau yn ôl at ei gilydd – yn gorfforol, seicolegol ac ariannol. Mae sut fyddwn ni'n cefnogi dioddefwyr yn arwydd o'r math o wlad ydyn ni. Mae taith pob dioddefwr yn wahanol. I rai, mae'n fyr a throsodd yn fuan. I eraill, mae'n daith sy'n gallu parhau am flynyddoedd a meddiannu eu bywydau. Beth bynnag yw natur y drosedd, mae pobl eisiau gwybod y bydd y gefnogaeth addas ar gael.

Mae'r Strategaeth Dioddefwyr hon yn cyfuno blynyddoedd o gynnydd a wnaethom ac yn adeiladu ar gerrig milltir pwysig yr ydym eisoes wedi cyrraedd i wella hawliau, cefnogaeth a phrofiad dioddefwyr. Trwy'r gwaith yma, mae gennym lawer gwell dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr. Roedd creu Comisiynydd Ddioddefwyr yn un agwedd bwysig o hynny, ac rwy'n talu teyrnged i'r Comisiynydd Dioddefwyr presennol, y Farwnes Newlove, am ei mewnbwn i'r strategaeth a'i gwaith parhaus er lles dioddefwyr a thystion. Mae diwygiadau pwysig eraill yn cynnwys sefydlu Panel Dioddefwyr, yn ogystal â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a dwyn deddfwriaeth ymlaen ar dynnu lluniau i fyny sgertiau. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith yma yn golygu bod lleisiau, a'r amddiffyniadau ar gyfer, dioddefwyr yn gryfach nawr nag erioed. Yn 2017, daeth trychineb Grenfell yn ogystal â'r ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion â'r modd rydym yn trin dioddefwyr i'r blaen.

Mae'n amlwg bod nifer o ddioddefwyr yn dal heb wybodaeth ddigon clir a'r gefnogaeth maent angen ar yr adeg iawn. Mae nifer wedi eu siomi gan eu profiad o'r system cyfiawnder ac yn teimlo nad yw eu llais yn cael gwrandawiad. Mae troseddau ac anghenion dioddefwyr hefyd yn newid. Rhaid i'n hymateb newid hefyd. Er bod troseddau wedi bod yn gostwng ar y cyfan, mae troseddau treisgar yn cynyddu. Mae mwy o adroddiadau o droseddau rhywiol, gyda dioddefwyr yn teimlo yn fwy parod i gwyno. Ac rydym yn gweld cynnydd mewn twyll a seiberdroseddau, sydd nawr yn atebol am ychydig dan hanner yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr.

Bydd ein diwygiadau ar adsefydlu troseddwyr yn helpu atal troseddau a dioddefwyr yn y dyfodol. Ond rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gefnogaeth yno i bobl y cyflawnir trosedd yn eu herbyn.

Mae'r neges gan ddioddefwyr yn glir: maent eisiau cael eu trin yn deg, yn briodol a gydag urddas. Maent eisiau gwybodaeth glir, amserol a chywir. Maent eisiau'r cyfle a'r gefnogaeth i gael gwrandawiad. Dyma pam fod y strategaeth hon yn gweld troseddau a'r system cyfiawnder trwy lygaid dioddefwyr. Mae'n cyflwyno pecyn o fesurau a fydd yn gwella ymhellach yr ymddiriedaeth yn, a phrofiad dioddefwr o, bob cam o'u profiad. Bydd yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cynnig y gefnogaeth y dylid rhoi iddynt, a bod ganddynt wybodaeth glir, sicr a grymus am y broses gyfiawnder. Ble mae angen i gefnogaeth i ddioddefwyr gael ei ategu mewn cyfraith, byddwn yn edrych ar ddeddfu.

Mae'r strategaeth hefyd yn amlygu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael am gefnogaeth arbenigol i fodloni anghenion dioddefwyr troseddau arbennig o ddinistriol sydd ar gynnydd megis ymosodiadau treisgar a cham-drin rhywiol a domestig. Ar gyfer rhieni sydd wedi colli plentyn i droseddau cyllyll, ar gyfer y sawl sydd wedi bod yn byw am flynyddoedd gyda'r baich o gael eu cam-drin yn rhywiol ac sydd wedi sefyll i fyny a thorri'r gyfrinach o'r diwedd, y cwpwl hŷn sydd wedi eu twyllo o arbedion oes ar-lein: ni ddylai eu galar ac ing gael ei waethygu gan gwynion a dicter tuag at system a ddylai eu cefnogi.

Beth bynnag y drosedd, a pha bynnag lwybr a chanlyniad mae'r daith yn cymryd, bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar ein cynnydd i helpu dioddefwyr yn syth wedi trosedd a sicrhau y gallant fod yn gyfranogwr gweithredol sy'n cael y gefnogaeth briodol yn y broses o gyflawni cyfiawnder.



**Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS**

**Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r Strategaeth Dioddefwyr traws lywodraeth yma yn sefydlu ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r gefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr troseddau ac yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer pob asiantaeth cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, CPS a'r llysoedd.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y cynnydd da a wnaethom yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y cymorth priodol yn dilyn trosedd ac yn cael eu cefnogi'n briodol yn y broses o weld cyfiawnder yn cael ei gyflawni.

Ein gweledigaeth ni yw ar gyfer system cyfiawnder sy'n cefnogi hyd yn oed mwy o ddioddefwyr i ddweud eu dweud trwy roi sicrwydd iddynt y byddant yn cael eu deall, y byddant yn cael eu diogelu, ac y byddant yn cael eu cefnogi trwy gydol eu taith, beth bynnag eu hamgylchiadau neu gefndir.

Ym **Mhennod 1**, rydym yn sefydlu ein hymrwymiadau allweddol, cyffredinol. Ymhlith y rhain mae:

- Cryfhau Cod y Dioddefwyr, ac ymgynghori ar fanylion deddfwriaeth sy'n ffocysu ar ddioddefwyr, yn cynnwys cryfhau pwerau'r comisiynydd Dioddefwyr a darparu Cyfraith Dioddefwyr.
- Dal asiantaethau'n atebol am gydymffurfio gyda'r Cod Dioddefwyr trwy wella adrodd, monitro a thryloywder.
- Datblygu'r manylion ar rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth sydd wedi colli anwyliaid mewn digwyddiadau hynod a thrychinebus.
- Diddymu'r rheol oedd yn gwrthod iawndal i rai dioddefwyr oedd yn byw gyda'u hymosodwr cyn 1979 ac ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.

Ym **Mhennod 2**, rydym yn sefydlu sut fyddwn ni'n gwella cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr troseddau, p'un a ydynt yn adrodd y drosedd neu beidio. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i:

- Gynyddu gwariant o £31m yn 2018 i £39m yn 2020/21 i wella gwasanaethau a llwybrau ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr trais a cham-drin rhywiol sy'n ceisio cymorth at ac o Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.
- Datblygu model cyflawni newydd ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth ddioddefwyr, gan gydlynu cyllid ar draws y llywodraeth.
- Ehangu ac ymestyn cefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd mewn profedigaeth oherwydd dynladdiad, yn cynnwys dod â chyllid newydd i mewn ar gyfer cefnogaeth eiriolaeth ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd dynladdiad domestig.
- Gwario £8 miliwn ar ymyraethau i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i blant sy'n dystion i gam-drin domestig.
- Peilotio'r model 'Tŷ Plentyn' yn Llundain, lle mae gwasanaethau lluosog yn dod ynghyd mewn amgylchedd cyfeillgar i blant i leihau trawma atodol.

Ym **Mhennod 3**, rydym yn sefydlu sut fyddwn ni'n gwella cefnogaeth i ddioddefwyr wedi i'r drosedd gael ei hadrodd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i:

- Gyflwyno gwell hyfforddiant i blismyn, yn cynnwys canllaw newydd ar gynnal cyfweliadau a chasglu tystiolaeth, a phrofi defnydd o gamerâu a wisgir ar y corff i gasglu Datganiadau Personol Dioddefwyr.
- Cynyddu'r nifer o Ganolwyr Cofrestredig, arbenigwyr cyfathrebu sy'n helpu dioddefwyr a thystion bregus i gyflwyno eu tystiolaeth gorau posibl yn ystod cyfweliad yr heddlu ac yn y llys, o 25%.
- Cynyddu cyfleoedd i ddioddefwyr ymgysylltu mewn datrysiadau amgen i'r llys.
- Gwella cyfathrebiad cyffredinol dioddefwyr, yn cynnwys wrth esbonio penderfyniadau i beidio erlyn ac ar yr hawl i adolygiad o benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Ym **Mhennod 4**, rydym yn sefydlu sut fyddwn ni'n rhoi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr yn ystod proses y llysoedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i:

- Wella amgylchedd y llys, gydag ardaloedd aros newydd caredig i ddioddefwyr a chynllun newydd i'r llys yn ffocysu ar hygyrchedd ar gyfer y mwyaf bregus.
- Rhyddhau amser y llys yn y llys ynadon trwy ddelio gyda throseddau lle nad oes dioddefwr y gellir ei nodi (e.e. osgoi talu am docyn) tu allan i wrandawiadau llys.
- Parhau i ddefnyddio cyswllt fideo i alluogi dioddefwr bregus i ddarparu tystiolaeth i ffwrdd o'r diffynnydd a'r llys yn gyfan gwbl.
- Annog defnydd o therapi cyn achos llys trwy lansio canllaw a phecyn cymorth newydd ar gyfer erlynyddion a therapyddion.

Ym **Mhennod 5**, rydym yn sefydlu sut fyddwn ni'n sicrhau bod dioddefwyr yn deall penderfyniad llys, goblygiadau hyn arnynt, ac i'r troseddwr. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i:

- Adolygu ac ystyried ymestyn y cynllun Dedfryd Rhy Drugarog er mwyn i ddioddefwyr a'r cyhoedd allu gofyn i ddedfryd gael ei hailystyried gan y Llys Apêl.
- Diwygio'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, gan ei wneud yn haws i optio i mewn, cyflwyno cyfathrebu mwy rheolaidd a mwy o ddefnydd o ddulliau cyswllt digidol.
- Gwella hyfforddiant i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, yn arbennig o ran cefnogi dioddefwyr yn ystod gwrandawiadau parôl ac i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.
- Adolygu ac ystyried os oes angen gwneud unrhyw welliannau i hawliau i ddioddefwyr troseddwyr gydag anhwylder meddwl.

# Cyflwyniad

Nid oes gan y mwyafrif o bobl brofiad beunyddiol o'r system cyfiawnder. Pan fyddant yn cael profiad ohono, mae fel arfer am eu bod yn ddioddefwr trosedd.

Os bydd hyn yn digwydd, yn anffodus gall eu profiad gyda'r system cyfiawnder fod yn un llawn straen, dryswch a meddiannu eu bywydau. Gall achosion troseddol difrifol gymryd blynyddoedd cyn cael eu datrys, gyda bywydau wedi eu dinistrio, perthnasau wedi eu difrodi, a gyrfaoedd ar stop. Gall troseddau ar lefel is achosi i gymunedau hollti, a bod yn bla ar gymdeithas yn gyffredinol.

Mae natur troseddau yn prysur newid. Mae technoleg wedi galluogi troseddoldeb, gan arwain at droseddau newydd megis tynnu lluniau i fyny sgertiau, a chynnydd mewn troseddau eraill megis stelcio. Mae twyll a seiberdroseddau nawr yn atebol am bron i hanner yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr. Mae mwy o ddioddefwyr yn cyflwyno eu hunain i adrodd am droseddau na adroddwyd amdanynt yn llawn yn draddodiadol, ac yn ceisio cefnogaeth. Er enghraifft, mae galw am wasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd trais rhywiol wedi codi 176% mewn tair blynedd.[1]

Rhaid i'r gefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr gadw i fyny gyda'r newidiadau hyn. Ni ddylai unrhyw un deimlo na all adrodd am drosedd, neu na fydd yn cael gwrandawiad. Ni ddylai unrhyw un orfod delio gyda thrawma trosedd ar ben ei hun.

Nod sylfaenol ein system gyfreithiol yw sicrhau cyfiawnder. Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n ddiniwed yn cael eu rhyddfarnu a'r euog yn cael eu collfarnu. Yng Nghymru a Lloegr, golyga ein system wrthwynebol fod achos yn cael ei ddwyn yn erbyn rhywun gan y Wladwriaeth, yn hytrach na dioddefwr. Ond er nad yw dioddefwr yn cymryd rhan gyfreithiol yn y broses, mae delio gydag achosion yn gyfiawn hefyd yn golygu parchu eu buddiannau. Ni ddylai taith dioddefwr trwy'r system cyfiawnder – beth bynnag y llwybr a chanlyniad – arwain at fod yn ddioddefwr o'r broses, yn ogystal â'r drosedd.

Ni all yr un adran, asiantaeth a gwasanaeth brys ddarparu'r gwasanaethau mae dioddefwyr yn disgwyl yn gyfiawn i'w derbyn yn unigol. Rhaid sicrhau bod pob un yn cydweithio. Dyma pam ein bod, am y tro cyntaf erioed, wedi cyhoeddi Strategaeth Dioddefwyr traws lywodraeth; dogfen yn sefydlu polisi newydd, ac yn uno ymrwymiadau gwariant presennol a wnaed gan amrywiol adrannau o'r llywodraeth.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth gyda dioddefwyr, grwpiau dioddefwyr a chynrychiolwyr fel y Comisiynydd Dioddefwyr. Mae hyn wedi sicrhau bod y strategaeth wedi ei hysbysu gan y rhai sydd wedi cael profiad uniongyrchol o fod yn ddioddefwr, yn ogystal â'r rhai gydag arbenigedd ar y rheng flaen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein dull a'r rhanddeiliaid rydym wedi ymgysylltu â nhw yn Atodiad 1.

## Cynnydd hyd yma

**Mae'r strategaeth hon yn nodi'r garreg filltir ddiweddaraf o ran gwella cefnogaeth i ddioddefwyr ac yn adeiladu ar gynnydd pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf:**

- Yn 2006, am y tro cyntaf erioed fe sefydlodd y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr wasanaethau cyfreithiol y mae'n rhaid eu darparu i ddioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.
- Yn 2010, penodwyd y Comisiynydd Dioddefwyr cyntaf. Sefydlwyd y swydd statudol i hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion ac annog arfer da o ran eu triniaeth.
- Cyhoeddwyd 'Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion' yn 2012, gan sefydlu dull y llywodraeth i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael y gefnogaeth maent angen.


**Mae cynnydd pellach yn cynnwys:**


- creu'r Panel Dioddefwyr, i gynrychioli llais dioddefwyr wrth lunio polisi'r llywodraeth.
- darpariaeth ehangach o fesurau arbennig ar gyfer tystion bregus ac wedi eu dychrynu, y mae nifer ohonynt yn ddioddefwyr.
- ceisio sefydlu deddfau newydd a phwerau cryfach i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.
- creu troseddau newydd i amddiffyn mwy o ddioddefwyr a dod â throseddwyr i gyfiawnder yn cynnwys: pornograffi dial, ymddygiad gorfodol neu reoli, a chyfathrebu rhywiol gyda phlentyn.
- cryfhau'r sylfaen o dystiolaeth ar brofiadau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) o ddiogelwch personol trwy gyhoeddi'r Adroddiad Ymchwil Arolwg LGBT 2018 a chyflwyno cynllun gweithredu i sicrhau bod pobl LGBT yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, cymunedau ac ar-lein.
- cryfhau'r pwerau cyfreithiol ar gyfer taclo gwyngalchu arian ac adfer asedau troseddol, yn ogystal â chyhoeddi cynllun gweithredu ar adfer asedau i amharu ar rwydweithiau troseddol a thalu iawndal i ddioddefwyr am eu profiadau.
- Yn ogystal, ar draws llywodraeth rydym wedi gweld ffocws ar daclo troseddau i osgoi rhag i bobl ddod yn ddioddefwyr o gwbl. Mae hyn yn amlwg mewn strategaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, megis y Strategaeth Trais Difrifol (Ebrill 2018), CONTEST, y strategaeth gwrthderfysgaeth (Mehefin 2018) a gwaith parhaus ar y Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb a Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched yn 2018.

## Y stori hyd yma

**2006**

Daw'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr i rym, wedi ei sefydlu gan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004. Dywed y Cod beth sy'n rhaid i bob asiantaeth cyfiawnder troseddol ei wneud i ddioddefwyr a'r cyfnod amser ble mae'n rhaid ei gyflawni.






**2007**


Cyflwyno'r Gordal Dioddefwyr. Gordal a godir ar bob unigolyn a gollfernir am drosedd yw hwn. Mae refeniw a gesglir o'r gordal yn cael ei glustnodi i ariannu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr.

2008

2009

**2010**

Penodi'r Comisiynydd Dioddefwyr cyntaf ar gyfer Cymru a Lloegr. Eu rôl yw hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion, annog ymarfer da o ran eu triniaeth, ac i adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yn rheolaidd.



2011

**2012**

**IONAWR**

Lansio ymgynghoriad y Llywodraeth ar 'Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion', yn sefydlu dull arfaethedig y llywodraeth i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael y gefnogaeth maent angen.

**HYDREF**

Pasio Cyfarwyddeb yr UE ar gyfer Dioddefwyr Troseddau 2012/29/ EU. Mae hyn yn gofyn i holl wledydd yr UE sefydlu safonau gofynnol ar hawliau, cefnogaeth ac amddiffyniad i ddioddefwyr troseddau. Mae'r Deyrnas Unedig yn cyflawni'r gofynion hyn trwy'r Cod Dioddefwyr.

**TACHWEDD**

Cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i gymryd lle'r hen system o awdurdodau'r heddlu. Fe ddyrannir cyllid lleol iddynt i gomisiynu gwasanaethau cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr troseddau yn eu hardal.

2013

**2014**

Y llywodraeth yn sefydlu'r Panel Dioddefwyr, i gynrychioli llais dioddefwyr wrth lunio polisi'r llywodraeth.

**2015**

Adolygu Cod y Dioddefwyr



2016

2017



**2018**

Cyhoeddi'r Strategaeth Dioddefwyr gan ddarparu fframwaith cenedlaethol, traws lywodraeth i wneud gwelliannau sylfaenol i ddioddefwyr.

Ffigwr 1

Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, cafwyd cynnydd arwyddocaol o ran gwella profiad dioddefwyr ac mae gennym well dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr ac rydym yn fwy parod i ddarparu'r offer mae dioddefwyr eu hangen i ymdopi ac adfer. Mae'n allweddol ein bod yn adeiladu ymhellach ar gynnydd hyd yma i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi dioddefwyr – sicrhau ein bod yn ymwybodol o natur newidiol trosedd a'r troseddau sy'n cael eu hadrodd, ac y gallwn ddelio gyda'r pwysau mae hyn yn ei osod ar y system.

## Beth mae dioddefwyr angen

### GWYBODAETH A CHYFATHREBU AMSEROL A CHYWIR

Gall hyn helpu dioddefwyr i ymdopi ag effaith troseddau. Os na roddir gwybodaeth a diweddariadau priodol i ddioddefwyr, gall hyn arwain at anfodlonrwydd gyda'r system cyfiawnder troseddol, ac mewn rhai achosion at ymddieithrio.




### TRINIAETH DEG YN YSTOD Y BROSES CYFIAWNDER

Mae ansawdd y gwasanaeth yn cyfrannu at foddhad dioddefwyr. Mae dioddefwyr eisiau teimlo eu bod wedi eu trin yn deg, ac i gael eu hysbysu'n briodol am y cymorth y gallent ei hawlio.



### GWEITHIO AMLASIANTAETHOL EFFEITHIOL

Gall gweithio mewn partneriaeth, ble mae nifer o asiantaethau yn cydweithio o'r un lleoliad, fod yn llai dryslyd i ddioddefwyr a sicrhau y rhennir gwybodaeth yn fwy effeithlon. Gall cydweithredu rhwng yr asiantaethau priodol hefyd gyfrannu at strategaethau atal effeithiol.



### GWASANAETHAU PROFFESIYNOL A THARGEDIG I DDIODDEFWYR

Mae nodi anghenion dioddefwyr yn gyflym yn golygu fod gwasanaethau wedi eu targedu at y rhai sydd fwyaf eu hangen a'u heisiau. Mae fwyaf defnyddiol i ddioddefwyr os yw'r prif bwynt cyswllt hwn yn weithiwr proffesiynol hyfforddedig gyda dealltwriaeth dda o'r system cyfiawnder troseddol, a'r tosturi ac empathi i ddarparu cefnogaeth foesol.



Ffigwr 2

Mae'r wybodaeth yma wedi ei chysodi o asesiad o dystiolaeth llenyddiaeth ryngwladol bresennol ar 'beth sy'n gweithio wrth gefnogi dioddefwyr troseddau', a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr. Wedlock, E a Tapley, J (2016)

## Heriau i'w trechu

### Mae natur troseddau yn newid

Yn ystod y degawdau diwethaf, rydym wedi gweld lleihad yn y nifer cyffredinol o droseddau, tuedd sydd nawr i'w weld yn sefydlogi. Fodd bynnag, mae'r mathau o droseddau sy'n cael eu cyflawni yn newid, sy'n golygu bod yn rhaid i'n hymateb o ran y ffordd rydym yn eu taclo a chefnogi dioddefwyr angen newid hefyd.

Ar draws llywodraeth, rydym yn ymateb i bwysau newydd trwy ganolbwyntio ar atal ac adsefydlu troseddwyr, delio gydag achosion sylfaenol troseddau a datblygu ffyrdd newydd i leihau ei effaith ar gymdeithas yn gyffredinol.

### Cafwyd cynnydd mewn troseddau treisgar niwed uchel

Er bod troseddau wedi gostwng ers canol y 1990au, cafwyd cynnydd yn ddiweddar mewn rhai troseddau treisgar niwed uwch a gofnodwyd gan yr heddlu.[3] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018 roedd cynnydd o 16% mewn troseddau gyda chyllyll yng Nghymru a Lloegr[4] ac roedd y gyfradd o droseddau trais yn erbyn y person a gofnodwyd gan yr heddlu yn debyg yng Nghymru a Lloegr, yn tua 24 fesul 1,000 o'r boblogaeth.[5] Yn 2018 rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn y gyfradd llofruddiaethau yn Llundain.[6] Cynyddodd troseddau yn gysylltiedig â drylliau 31% rhwng 2013/14 a 2016/17,[7] ond rydym wedi gweld cynnydd llawer is o 2% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018.[8] Gall y troseddau hyn gael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau. Gall cynnydd sydyn mewn mathau penodol o droseddau hefyd gyflwyno pwysau newydd ar y mathau o gefnogaeth mae dioddefwyr angen. Er enghraifft, rydym yn gweld cynnydd digynsail mewn ymosodiadau asid a defnydd o hylifau cyrydol eraill fel arfau. Mae'r mathau yma o ddigwyddiadau yn gofyn am gefnogaeth feddygol arbenigol. Yn Llundain, mae ymosodiadau wedi mwy na dyblu ers 2014 gydag ymosodiadau eraill yn fwyaf nodedig yn Essex a Gorllewin Canolbarth Lloegr.[9]

## Gweithredu gan y llywodraeth:

- Rydym yn delio gyda'r cynnydd mewn trais difrifol trwy'r **Strategaeth Trais Difrifol** sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng atal a gorfodi'r gyfraith.
- Rydym yn symud ymlaen gyda'r **Bil Arfau Ymosodol** a fydd yn cyflwyno pwerau newydd i daclo troseddau cyllyll, ymosodiadau asid a'r risg y gallai troseddwyr gaffael arfau pwerus.

### Mae mwy o bobl yn dod ymlaen i adrodd am droseddau na adroddwyd amdanynt yn ddigonol yn draddodiadol, gan greu mwy o alw yn y system

Rydym wedi gweld cynnydd arwyddocaol mewn troseddau rhyw a gofnodwyd gan yr heddlu, er enghraifft:

- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018, roedd cynnydd o 23% mewn troseddau rhyw a adroddwyd yn Lloegr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[10] Roedd troseddau rhyw yn erbyn plant yn cyfrannu at fwy na chwarter (27%) y cynnydd hwn.[11]
- Yng Nghymru, roedd yna hefyd gynnydd o 39% mewn troseddau rhyw a gofnodwyd gan yr heddlu, ac roedd y gyfradd (fesul 1,000 o'r boblogaeth) yn debyg i Loegr ar tua 2.8.[12]
- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017, amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) gynnydd o 27% mewn adroddiadau o dreisio dioddefwyr gwrywaidd dros 16 oed o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[13]

Mae'n beth da fod mwy o ddioddefwyr yn teimlo'n ddigon hyderus i adrodd, ac rydym yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod y nifer yn parhau i gynyddu; ond rydym yn cydnabod y galw cynyddol mae hyn yn ei osod ar y system. Mae'r CPS yn erlyn achosion troseddau rhywiol pan geir digon o dystiolaeth i wneud hynny, a bydd y rhai a geir yn euog o droseddau rhyw difrifol yn parhau i wynebu dedfrydau hir o garchar.

Mae gwasanaethau cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr gwrywaidd troseddau rhyw wedi adrodd bod galw yn cynyddu 176% o fewn cyfnod o dair blynedd.[14] Felly hefyd, yn unol ag ymdrechion y llywodraeth i daclo caethwasiaeth fodern a chynyddu adrodd, yn 2017, roedd cynnydd o 159% mewn troseddau caethwasiaeth fodern a gofnodwyd, ac fe gynyddodd erlyniadau o ddiffynyddion yn gysylltiedig i gaethwasiaeth fodern hefyd o 54% rhwng 2015 a 2016.[15]

Mae cam-drin domestig yn parhau i fod yn dreiddiol ond heb ei hadrodd yn ddigonol. Amcangyfrifwyd bod 1.9 miliwn o oedolion yn adrodd bod yn destun cam-drin domestig yn y CSEW yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017.[16] Mae cyfraddau troseddau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn debyg yng Nghymru a Lloegr ar 8 a 9 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno.[17] Ac, yn anffodus, cafodd 82 o fenywod a 13 o ddynion eu lladd gan bartner neu gyn bartner yn 2016/17 yng Nghymru a Lloegr.[18] Tra bod adroddiadau am y troseddau hyn i'r heddlu yn cynyddu, nid yw'r rhan fwyaf o ddioddefwyr cam-drin domestig (yn ôl mesur y CSEW) yn adrodd unrhyw beth i'r heddlu.[19]

## Natur newidiol troseddau



Yn ystod y degawdau diwethaf, rydym wedi gweld lleihad yn y nifer cyffredinol o droseddau, tuedd sydd nawr i'w weld yn sefydlogi. Mae amcangyfrifon diweddaraf Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) **YN AWGRYMU FOD 1 O BOB 5 OEDOLYN WEDI CAEL PROFIAD O DROSEDDU** yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018.

### MAE TROSEDD DREISGAR GYDA NIWED UCHEL WEDI CYNYDDU



Mae troseddau cyllyll a gofnodwyd gan yr heddlu wedi **CYNYDDU O 16%** yng Nghymru a Lloegr yn 2017/18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r nifer o lofruddion a gofnodwyd wedi **CODI O 12%** ar gyfer yr un cyfnod.




Yn Llundain, mae ymosodiadau **ASID WEDI MWY NA DYBLU** ers 2014, gydag ymosodiadau eraill yn Essex a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

### MAE MWY O BOBL YN CYFLWYNO EU HUNAIN I ADRODD AM DROSEDDAU NA ADRODDWYD AMDANYNT YN LLAWN YN DRADDODIADOL, GAN GREU MWY O ALW YN Y SYSTEM



Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2018, roedd troseddau rhyw a adroddwyd **I FYNY 24%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




Mae troseddau casineb a adroddwyd **WEDI CODI POB BLWYDDYN** ers dechrau olrhain data yn 2012/13.



Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017, cofnododd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr **2,255** o droseddau caethwasiaeth modern, **CYNNYDD O 159%** ar y flwyddyn flaenorol.

### MAE CAM-DRIN DOMESTIG YN PARHAU I FOD YN DROSEDD DREIDDIOL OND NAD YW WEDI EI HADRODD YN DDIGONOL



Awgryma data CSEW fod oddeutu **1.9 MILIWN O OEDOLION** wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017.



Mae adrodd am droseddau cam-drin domestig yn cynyddu, ond mae'r **MWYAFRIF O DDIODDEFWYR** (yn ôl mesur y CSEW) yn dal ddim yn adrodd am y drosedd i'r heddlu.

### MAE DIGWYDDIADAU MAWR WEDI DANGOS FOD ANGEN YMATEB TRAWS LYWODRAETH I GEFNOGI DIODDEFWYR


**COLLODD 36 O BOBL EU BYWYDAU** mewn ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion yn 2017, a **BU FARW 71 O BOBL** o ganlyniad i dân Tŵr Grenfell.



### MAE RÔL TECHNOLEG MEWN TROSEDDAU YN ESBLYGU'N GYFLYM



Mae technoleg nawr yn chwarae **MWY O RAN** mewn stelcio a throseddau newydd fel 'lluniau sgertiau'.



Roedd twyll a seiberdroseddu yn atebol am **BRON I HANNER** yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr yn 2017.

Ffigwr 3

## Gweithredu ar gam-drin domestig:

Bydd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cam-drin domestig yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn 2018, gan gyfuno newid deddfwriaethol yn unol ag ymroddiad Araith y Frenhines, gweithredu an-ddeddfwriaethol ar draws llywodraeth, ac £20 miliwn o gyllid penodedig i sicrhau ein bod yn taclo'r troseddau erchyll hyn.

Rydym hefyd yn gweld cynnydd mewn troseddau casineb a gofnodir. Mae ffigurau'r heddlu wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn ers i'r gyfres data gychwyn yn 2012/13, gyda ffigurau 2016/17 yn cynrychioli'r cynnydd mwyaf eto (29% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 2015/16).[21] Mae'r ffigurau hyn a gofnodwyd gan yr heddlu yn adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd plismona ac arferion cofnodi troseddau, yn ogystal â mwy o ddioddefwyr yn dod ymlaen i geisio cefnogaeth a chyfiawnder.

## Taclo troseddau heb eu hadrodd yn ddigonol:

- Y Cyfeiriad Strategol ar gyfer Cam-drin Rhywiol a Gwasanaethau Cam-drin
- Strategaeth Caethwasiaeth Fodern ac adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb
- Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar gyfer Lloegr a'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Gymru

### Mae digwyddiadau mawr diweddar wedi amlygu nad oes yr un adran neu wasanaeth yn gallu bodloni'r heriau cefnogaeth yn unigol

Gwelodd 2017 gyfres o ymosodiadau terfysgol yn y Deyrnas Unedig a thramor sydd wedi effeithio ar ddinasyddion y Deyrnas Unedig. Collodd 36 o bobl eu bywydau mewn ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion ac mae cannoedd yn fwy o bobl wedi eu heffeithio gan y digwyddiadau hyn ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, bu farw 71 o bobl o ganlyniad i dân Tŵr Grenfell a bu farw un arall o breswylwyr y Tŵr yn gynharach eleni gan ddod â'r cyfanswm i 72. Mae'r ymchwiliad troseddol parhaus i achosion tân Tŵr Grenfell yn golygu bod gan y dioddefwyr hawl i'r un gefnogaeth yng Nghod y Dioddefwyr â dioddefwyr troseddau eraill.

Mae'r digwyddiadau hyn wedi galw am ymateb ar draws llywodraeth i gefnogi'r dioddefwyr a'u teuluoedd, ac mae yna enghreifftiau o heriau parhaus i ddelio gyda digwyddiadau mawr. Ni all yr un adran na gwasanaeth fodloni'r heriau yn unigol, o ran eu maint a chymhlethdod. Fe sefydlom Uned Dioddefwyr Terfysgaeth traws lywodraeth, ac Uned Dioddefwyr Grenfell traws lywodraeth. Yn y ddau achos, rôl yr Uned oedd cydlynu'r ymatebion a chefnogaeth a ddarparwyd gan amrediad eang o asiantaethau statudol ac anstatudol yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, ar lefel genedlaethol a lleol.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwbl barod os bydd digwyddiadau mawr yn y dyfodol. Rydym wedi ystyried adolygiadau ac argymhellion Cymorth i Ddioddefwyr yn ofalus ar gefnogaeth yn y dyfodol yn dilyn ymosodiadau terfysgol 2017. Rydym hefyd wedi edrych ar adolygiad yr Esgob James Jones o sut cafodd teuluoedd mewn profedigaeth eu trin yn dilyn Hillsborough, a nododd welliannau o ran sicrhau bod teuluoedd a dioddefwyr yn derbyn cefnogaeth briodol.

## Ymateb i ddigwyddiadau mawr:

Rydym wedi sefydlu hybiau traws lywodraeth i gydlynu gwaith i gefnogi dioddefwyr terfysgaeth a'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan dân Tŵr Grenfell.

### Mae rôl technoleg mewn troseddu yn esblygu'n gyflym

Rhaid i ni gadw i fyny gyda'r modd mae technoleg yn cael ei ddefnyddio i gyflawni troseddau. Mae technoleg wedi chwarae rôl gynyddol mewn stelcio, yn ogystal â throseddau newydd fel tynnu lluniau i fyny sgertiau a thynnu lluniau eraill anghyfreithlon.

Ar y cyd, mae twyll a seiberdroseddu bellach yn gyfrifol am ychydig dan hanner yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr yn ôl amcangyfrif Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018, ac mae casgliadau o'r arolwg yn awgrymu mai llai nag un pumed (13%) o ddigwyddiadau o dwyll sydd naill ai'n dod i sylw'r heddlu neu'n cael eu hadrodd gan y dioddefwr i Action Fraud.[22] Awgryma ymchwil y gall twyll gael effaith emosiynol a seicolegol dwys ar ddioddefwyr a bod ymateb caredig i adrodd yn ogystal â gwybodaeth glir ar y gwasanaethau cefnogaeth sydd ar gael yn bwysig i ddioddefwyr[23].

## Rydym yn dilyn datblygiadau mewn technoleg trwy:

- Wneud tynnu lluniau i fyny sgertiau yn drosedd
- Cyhoeddi Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol newydd
- Datblygu cynlluniau ar gyfer llys twyll a seiberdroseddu o safon byw mewn partneriaeth gyda Chorfforaeth Dinas Llundain

# Gwelliannau cyffredinol i brofiad dioddefwyr

## Taith dioddefwr

Mae taith pob dioddefwr yn wahanol. Dyma pam ei bod yn allweddol ein bod yn ymateb i'w hanghenion penodol, p'un a ydynt wedi adrodd am y drosedd neu beidio. Mae hefyd yn allweddol bod dioddefwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir, gywir ac amserol i'w cefnogi trwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae deddfwriaeth allweddol eisoes ar waith i gefnogi dioddefwyr ar y daith hon:

- Cod y Dioddefwyr yw un o'r dogfennau pwysicaf ar gyfer dioddefwyr troseddau, gan ei fod yn sefydlu mewn cyfraith y gwasanaethau a gwybodaeth mae ganddynt hawl i'w dderbyn wrth iddynt ryngweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICS) yn gynllun statudol sy'n darparu iawndal gan y llywodraeth i ddioddefwyr troseddau treisgar.
- Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr yn ddeiliad swydd statudol sy'n gyfrifol am hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion; annog arfer da yn y modd yr ymdrinnir â dioddefwyr a thystion; a chadw gweithrediad Cod y Dioddefwyr dan adolygiad.
- Rydym eisiau adeiladu ar y ddeddfwriaeth hon er lles holl ddioddefwyr troseddau, a gwneud gwelliannau cyffredinol i brofiad dioddefwyr.

### Y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Mae Cod y Dioddefwyr (y Cod) yn ddogfen gan y Llywodraeth sy'n dweud wrth ddioddefwyr pa wybodaeth y dylent, yn ôl y gyfraith, ei chael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr megis yr heddlu a'r llysoedd, ond hefyd sefydliadau eraill a enwir yn y Cod.

Mae'r Cod hefyd yn dweud wrth yr asiantaethau a sefydliadau hynny, a elwir yn "ddarparwyr gwasanaeth", beth sy'n rhaid iddynt wneud i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gefnogaeth a'r wybodaeth yna. Ymhlith yr enghreifftiau o wybodaeth a gwasanaethau y dylai dioddefwyr dderbyn mae:

- esboniad clir o beth i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol.
- diweddariadau ar yr ymchwiliad fel os yw rhywun newydd gael ei arestio ac yn cael ei gyhuddo o'r drosedd.
- 'asesiad anghenion' i ganfod pa gefnogaeth ddylai'r dioddefwr ei gael, a'i atgyfeirio at y gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr perthnasol yn dilyn hynny.
- cyfle i wneud datganiad personol y dioddefwr i esbonio sut mae trosedd wedi effeithio arno.

Mae'r Cod hefyd yn gofyn i bob dioddefwr gael ei drin mewn modd parchus, sensitif a phroffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.

Mae'r Cod yn sefydlu'r gwasanaethau 'uwch' y dylid eu darparu ar gyfer y categorïau canlynol o ddioddefwyr:

- dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol (aelodau teuluoedd mewn profedigaeth a dioddefwyr trais domestig, troseddau casineb, terfysgaeth, troseddau rhyw, masnachu mewn pobl, ymgais i lofruddio, herwgipio, carcharu ar gam, llosgi gyda'r bwriad i beryglu bywyd ac anafu neu achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad).
- dioddefwyr sydd wedi eu targedu'n gyson (targedu'n fynych dros amser, yn arbennig os yn fwriadol, yn cynnwys dioddefwyr aflonyddu parhaus a stelcio).
- dioddefwyr bregus ac wedi eu brawychu (e.e. yn cynnwys rhai dan 18, oedolion gyda nam neu anhwylder meddwl, ofn neu drallod ynghylch tystio yn y llys a fydd yn effeithio ar safon y dystiolaeth).

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys amserlenni byrrach, gofyn i ddarparwyr gwasanaethau gael cydsyniad cyn darparu gwasanaethau penodol, a Mesurau Arbennig ar gyfer dioddefwyr cymwys sy'n cyflwyno tystiolaeth fel tystion yn y llys.

## Beth yw'r heriau?

### Mae problemau gydag ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyflawniad Cod y Dioddefwyr

Er gwaethaf ei bwysigrwydd, mae nifer o bobl ddim yn ymwybodol fod Cod y Dioddefwyr yn bodoli ac yn ei chael yn anodd deall beth mae'n ei olygu iddynt.[24] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017, dim ond 18% o ddioddefwyr oedd yn ymwybodol o'r Cod.[25] Rydym hefyd yn cydnabod pryderon nad yw'r hawliau yn y Cod y Dioddefwyr yn cael eu darparu pob tro, ond mae diffyg data ac adrodd yn ei gwneud yn anodd monitro ble mae'r problemau allweddol ac nid yw'r Cod yn cael ei fonitro na'i orfodi'n gyson.

### Sicrhau bod iawndal yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth newidiol o droseddau

Mae'r CICS, a weinyddir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA), yn sefydlu dan ba amgylchiadau y gellir dyfarnu iawndal a ariennir gan y llywodraeth i ddioddefwr trosedd dreisgar. Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol (IICSA) wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch newidiadau i weithredoedd y CICS a'r CICA ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol.

### Gall y system cyfiawnder troseddol fod yn ddryslyd a llethol i ddioddefwyr

Gall fod sawl cam ar daith y dioddefwr trwy'r broses cyfiawnder troseddol, sy'n dod â nhw i gysylltiad gyda gwahanol bobl ar wahanol adegau. Gwyddom y gall hyn fod yn anodd i ddioddefwyr ddeall a llywio. Gall fod yn llethol ac, ar y gwaethaf, yn drawmatig os bydd yn rhaid i ddioddefwyr ailadrodd eu stori sawl gwaith.

### Nid yw gwybodaeth yn glir a hygyrch bob tro

Ni fydd gan nifer o ddioddefwyr ddealltwriaeth flaenorol o sut mae'r broses cyfiawnder troseddol yn gweithio a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Rydym wedi clywed gan ddioddefwyr eu bod yn ystyried darparu gwybodaeth ar gamau allweddol y system cyfiawnder troseddol a gwybodaeth ar y mathau o wasanaethau cefnogaeth sydd ar gael i fod yn un o'r hawliau pwysicaf dan y Cod. Gall diffyg gwybodaeth hygyrch, amserol a chywir arwain at ddieithrio dioddefwyr.[26] O ystyried y pwyntiau cyswllt lluosog yn nhaith dioddefwr, gall fod yn anodd iddynt ganfod gwybodaeth glir, gyson a chywir sy'n berthnasol iddynt.

### Ymyrraeth y wasg

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd rhyddid y wasg, mae digwyddiadau mawr diweddar wedi amlygu effaith negyddol ymyrraeth y wasg ar allu dioddefwr i ymdopi ac adfer o drosedd. Teimlai dioddefwyr ymosodiad arena Manceinion yn fwyafrifol negyddol ynghylch sut wnaeth y wasg ymddwyn yn dilyn y bomio. Roedd pobl yn sôn am gael eu 'hela'; gyda rhai dioddefwyr wedi eu plagio mewn ysbytai ac roedd nifer yn amlygu'r trallod a achoswyd gan griwiau camera tu allan i'w cartrefi.

## I daclo'r heriau hyn, byddwn yn:

### Cryfhau Cod y Dioddefwyr

**Addasu Cod y Dioddefwyr** i ddelio â chymhlethdod, hygyrchedd ac iaith y Cod ac ymgynghori ar fersiwn ddiwygiedig. Byddwn hefyd yn diweddaru hawliau yn y Cod fel eu bod yn adlewyrchu anghenion dioddefwyr yn well. Rydym wedi amlinellu rhai o'r newidiadau y bwriadwn wneud i'r Cod ym mhenodau perthnasol y Strategaeth hon.

**Creu trosolwg byr, hawdd i'w ddarllen o'r Cod** i grynhoi'r pwyntiau allweddol fydd yr holl ddioddefwyr angen eu gwybod. Byddwn yn cynhyrchu crynodeb ar-lein a chopi caled ac yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ei fod ar gael yn helaeth.

**Dal asiantaethau'n atebol am gydymffurfio gyda'r Cod Dioddefwyr** trwy wella adrodd, monitro a thryloywder ar os yw dioddefwyr yn derbyn hawliau. Mae hyn yn mynd law yn llaw gydag addasu'r Cod i sicrhau bod yr hawliau mae dioddefwyr yn eu derbyn y rhai cywir yn y lle cyntaf. Ar lefel leol, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am fonitro a nodi materion yn rheolaidd trwy drefniadau partneriaeth cyfiawnder troseddol lleol er mwyn iddynt allu pennu ymyrraeth leol effeithiol. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Gweinidogion yn derbyn adroddiadau i fonitro cyflawniad ar lefel genedlaethol a thaclo materion trawsbynciol gyda darparwyr gwasanaeth cenedlaethol.

**Cyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad ar fanylion y Ddeddf Dioddefwyr.** Byddwn yn ymgynghori ar fanylion y ddeddfwriaeth ond rydym eisiau cryfhau gweithrediad y Cod i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaethau mae ganddynt hawl iddynt, a bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cael eu dal yn atebol os nad ydynt. Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr yn llais allweddol ar gyfer dioddefwyr a bydd yr ymgynghoriad yn archwilio cynyddu eu pwerau i ddal y llywodraeth yn fwy atebol.

### Gwella mynediad at iawndal

**Diddymu'r rheol oedd yn gwrthod iawndal i rai dioddefwyr oedd yn byw gyda'u hymosodwr cyn 1979 ac ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.** Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut all y cynllun wasanaethu dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn well, archwilio argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol (IICSA), a dioddefwyr terfysgaeth.

**Gwell sut ydym yn trin hawliadau dioddefwyr am iawndal.** Mae CICA eisoes wedi cyflwyno canllaw newydd i staff ar gyfer delio gyda cheisiadau gan ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol i sicrhau yr ystyrir paratoi gan droseddwyr. Mae CICA hefyd wedi hybu eu tîm gwasanaeth cwsmeriaid, a nawr yn cynnig gweithwyr achos penodedig i ymgeiswyr mewn achosion arbennig o gymhleth ac anodd.

**Cyflymu'r broses o sicrhau iawndal.** Mae CICA wedi cyflwyno proses rheoli achosion newydd, yn anelu i gael penderfyniad cyntaf yn barod mewn 80% o achosion o fewn 12 mis, tra bod prosesau digidol newydd eisoes wedi cwtogi rhai ceisiadau o hyd at 30 niwrnod. Mae taith newydd symlach i'r cwsmer hefyd wedi ei gyflwyno ar gyfer dioddefwyr ymosodiad neu gam-drin rhywiol ble nad oes angen prognosis meddygol i ddatrys eu cais yn gyflym, gan ddod â seicolegwyr clinigol i mewn i gyflymu ceisiadau ar gyfer dioddefwyr yn dioddef o anaf meddyliol.

### Symleiddio'r profiad cyfiawnder troseddol a hwyluso cefnogaeth

**Lansio ymgynghoriad ar Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol (IPA)** i helpu teuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn trasiedi mawr. Ni ddylai'r un teulu orfod ceisio llywio a chymryd rhan mewn cwestau, ymchwiliadau nac archwiliadau yn dilyn digwyddiadau mawr, fel Hillsborough. Mae datgelu'r gwirionedd yn hynod bwysig i'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan ddigwyddiadau mawr, ac mae'n allweddol fod lleisiau'r rhai mewn profedigaeth yn cael gwrandawiad. Rydym yn deall bod teuluoedd angen cefnogaeth ymroddedig i gael clywed eu lleisiau yn dilyn digwyddiadau mawr.

**Gwella rhyngweithio dioddefwyr gyda'r broses cyfiawnder troseddol trwy leihau'r nifer o wahanol bobl y mae'n rhaid iddynt ymgysylltu â nhw.** Mae yna nifer o bobl sy'n cefnogi dioddefwyr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol ac mae'r rolau hyn yn amrywio yn ôl anghenion dioddefwr, ym mha gam o'r broses y maent neu'r math o drosedd maent wedi ei brofi. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion Cyswllt Teuluol, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, Swyddogion Gofal Tystion a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr. Byddwn hefyd yn adolygu rôl cefnogwyr ac eiriolwyr dioddefwyr yn rhan o'r adolygiad i God y Dioddefwyr.

**Cyflwyno fframwaith newydd i wella ymateb a chefnogaeth cyfiawnder troseddol ar gyfer achosion cam-drin domestig.** Mae'n cynnwys dull amlasiantaethol i reoli risg a gweithdrefnau diogelu; arfer gorau ar y defnydd o Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol trwy gydol y broses; staff wedi eu hyfforddi a'u lleoli'n gyson ar draws yr holl asiantaethau; a gwasanaethau tystion rhagweithiol gydag ymweliadau cyfarwyddo cyn treialon a defnyddio mesurau arbennig.

**Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICS)** yn gynllun a ariennir gan y llywodraeth i dalu iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar ym Mhrydain Fawr.

Mae'r cynllun yn talu i ddioddefwyr sy'n dioddef anaf corfforol neu feddyliol difrifol o ganlyniad uniongyrchol i drosedd dreisgar.

Ni all yr un dyfarniad fyth dalu iawn yn llwyr i ddioddefwyr am yr hyn maent wedi dioddef neu ei golli – dyma sut mae cymdeithas yn cydnabod eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar.

Mae taliadau am anafiadau yn amrywio o £1,000 i £250,000 yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr anaf. Gellir hefyd gwneud taliadau atodol am golli enillion neu gostau eraill. Mewn achosion angheuol, gellir gwneud taliadau i berthnasau cymwys yr ymadawedig ac i dalu am gostau angladd.

Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn gweinyddu'r cynllun yn annibynnol o lywodraeth ac yn penderfynu ar bob hawliad.

Yn 2017/18, gwnaeth yr Awdurdod benderfyniadau ar dros 40,000 o geisiadau am iawndal, a thalu £154 miliwn i ddioddefwyr troseddau treisgar.

### Gwella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth

**Datblygu hyb ar-lein i ddioddefwyr** fel bod yr holl wybodaeth maent ei angen – fel sut mae'r system cyfiawnder yn gweithio, ble i ddod o hyd i gefnogaeth, a sut i ddarparu adborth – yn hawdd cael ato a'i ddeall. **Rydym wedi diwygio gwybodaeth ar GOV.uk sy'n berthnasol i ddioddefwyr**, fel y trosolwg o'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, fel bod yr wybodaeth yn gyfredol ac yn haws i'w deall.

**Gwella'r wybodaeth a anfonir at ddioddefwyr a sut y'i cyfathrebir.** Rydym wedi amlinellu gwelliannau penodol yn yr adrannau perthnasol o'r Strategaeth hon, ond mae'r newidiadau yn cynnwys darparu esboniadau mwy clir a sensitif ar gyfer penderfyniadau a gweithredoedd, cysondeb o ran goslef ac iaith a chynnig mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran sut maent yn derbyn gwybodaeth. Rydym eisiau rhoi mwy o ddewis i ddioddefwyr ynghylch sut maent yn derbyn gwybodaeth, p'un a yw wedi ei esbonio iddynt gan rywun, ar-lein neu trwy ddulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu fel llythyr.

### Cryfhau'r system reoleiddio ar gyfer y wasg i daclo ymyrraeth gan y cyfryngau

**Diweddaru disgwyliadau diogelu data** a rhoi grym i'r canllaw mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) eisoes yn darparu i newyddiadurwyr. Bydd canllaw iawndal y wasg newydd gan yr ICO hefyd yn cyfeirio pobl ar-lein at iawndal hygyrch a chyfiawn heb y costau ac atebolrwydd o fynd i'r llys. Bydd yr ICO hefyd yn cyflawni adolygiad statudol o gydymffurfiad y wasg gyda'r gyfraith newydd yn ystod y pedair blynedd nesaf, a phob pum mlynedd wedi hynny. Yn 2018, **fe gyhoeddom arweiniad i ddioddefwyr digwyddiadau mawr ar ddelio gyda diddordeb ac ymyrraeth y wasg.** Byddwn yn edrych ar ehangu'r canllaw hwn i ddioddefwyr yn ehangach gan gydnabod diddordeb y wasg mewn nifer o achoson eraill fel troseddau rhywiol, fel bod dioddefwyr yn gwybod eu hawliau a ble i gael cefnogaeth.

**Mae gan y wasg hefyd reoleiddiwr newydd, cryfach ac wedi ei ariannu'n well,** y Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg (IPSO), sy'n rheoleiddio 95% o gyfryngau print y Deyrnas Unedig. Bydd IPSO nawr yn cynnig cyflafareddiad cost isel annibynnol, gan sicrhau y gall pobl gyffredin dderbyn unioniad yn erbyn y wasg. **Mae IPSO hefyd yn datblygu cynllun digwyddiad mawr sefydliadol** a fydd yn cael ei ysgogi'n awtomatig wedi unrhyw ddigwyddiad ble bydd anafiadau lluosog, a chanllawiau ar gyfer golygwyr a'r cyhoedd o ran adrodd am ddigwyddiadau mawr. **Bydd IPSO yn codi ymwybyddiaeth o'i system Hysbysiadau Cynghori Preifat** y bydd IPSO yn gallu ei ddefnyddio i gyhoeddi hysbysiadau ar draws y diwydiant i hysbysu golygyddion a newyddiadurwyr am bryderon pobl a beth mae Cod y Golygyddion yn ei ddweud am sut y dylent ymddwyn.

Un o swyddogaethau allweddol yr **Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol** fydd i gefnogi a hwyluso ymgysylltu teuluoedd mewn profedigaeth gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r digwyddiadau trychinebus a arweiniodd at farwolaeth eu hanwyliaid.

Bydd yr IPA yn helpu sicrhau bod lleisiau'r rhai mewn profedigaeth yn cael eu clywed a deall ac yn golygu bod y rhai sy'n galaru yn ymgysylltu'n effeithiol gydag ymchwilwyr sy'n deall ac yn ymatebol i'w hanghenion. Rydym yn benderfynol y bydd profiadau fel rhai teuluoedd Hillsborough byth yn cael eu hailadrodd.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn y cyhoedd a phawb sydd â diddordeb yn y rôl bwysig hon ar ein cynigion ar gyfer:

- Darparu eglurder ar y mathau o ddigwyddiadau a fydd yn galw am gefnogaeth yr IPA ac ar natur y gefnogaeth a fydd yn cael ei darparu.
- Nodi'r holl bobl ddylai dderbyn cefnogaeth yr IPA.
- Y ffordd orau i sicrhau bod yr IPA ar gael ble bynnag a phryd bynnag fydd trychineb yn digwydd.

## Cryfhau Cod y Dioddefwyr

- Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol bod Cod y Dioddefwyr yn bodoli, ac maent yn ei chael yn anodd deall beth mae'n ei olygu iddynt.
- Efallai na fydd dioddefwyr yn derbyn yr hyn mae ganddynt hawl iddo yn y Cod y Dioddefwyr, ac mae diffyg data i brofi beth yw'r problemau allweddol.

- Addasu Cod y Dioddefwyr.
- Ymgynghori i brofi'r Cod y Dioddefwyr diwygiedig.
- Creu trosolwg byr, hawdd ei ddarllen o'r Cod fel copi caled a fersiwn electronig.
- Cyflwyno gwell adrodd, monitro a thryloywder i gryfhau cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr.
- Cyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad ar fanylion y Ddeddf Dioddefwyr, yn cynnwys cryfhau cydymffurfiad a phwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr.

## Gwella mynediad at iawndal

- Diddymu'r rheol oedd yn gwrthod iawndal i rai dioddefwyr oedd yn byw gyda'u hymosodwr cyn 1979.
- Ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.
- Cyflwyno arweiniad a hyfforddiant i ddelio gyda cheisiadau am iawndal gan ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.
- Cynnig gweithwyr achos penodol i ymgeiswyr am iawndal yn yr achosion mwyaf cymhleth.
- Cyflwyno proses rheoli achosion a dewis llwybr cyflym ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol.

## Symleiddio'r profiad cyfiawnder troseddol a hwyluso cefnogaeth

- Mae'r broses cyfiawnder troseddol yn anodd ei deall a'i llywio.
- Gall dioddefwyr digwyddiadau mawr ei chael yn anodd cymryd rhan mewn cwestau, ymchwiliadau ac archwiliadau.

- Lansio ymgynghoriad ar rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol.
- Lleihau'r nifer o bobl y bydd dioddefwyr yn ymgysylltu â nhw.
- Adolygu rôl cefnogwyr ac eiriolwyr dioddefwyr yn rhan o'r adolygiad i God y Dioddefwyr.
- Cyflwyno fframwaith newydd i wella ymateb a chefnogaeth cyfiawnder troseddol ar gyfer achosion cam-drin domestig.

## Gwella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth

## Cryfhau'r system reoleiddio ar gyfer y wasg i daclo ymyrraeth gan y cyfryngau

- Ehangu canllaw i ddioddefwyr ar ddelio gyda'r cyfryngau o ddigwyddiadau mawr i ddioddefwyr troseddau eraill.
- Diweddaru disgwyliadau diogelu data a rhoi grym i arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i newyddiadurwyr.
- Datblygu canllaw newydd i'r cyfryngau gan yr ICO.
- Yr ICO i gyflawni adolygiad statudol o gydymffurfiad y wasg gyda'r gyfraith newydd yn ystod y pedair blynedd nesaf, a phob pum mlynedd wedyn.

### Rhai o'r newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud i'r Cod y Dioddefwyr

- Ei wneud yn fwy clir, mwy hygyrch i ddioddefwyr ac adlewyrchu eu hanghenion yn well, gan gynnwys gwella esboniadau o hawliau.
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddioddefwyr i'w galluogi i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth a gomisiynir ac annibynnol.

# Cefnogaeth ar gael p'un ai yw dioddefwyr yn adrodd trosedd neu beidio

## Taith dioddefwr

I nifer, nid yw'r profiad o fod yn ddioddefwr yn dod i ben wedi cyflawni trosedd. Gall troseddau gael effaith arwyddocaol ar lesiant ffisiolegol ac emosiynol dioddefwr, gan arwain at drawma parhaus, colli gwaith neu anawsterau ariannol. Mae nifer o droseddwyr hefyd wedi yn ddioddefwyr troseddau. Gall derbyn y cymorth priodol, ar yr adeg gywir, helpu torri'r cylch o erledigaeth a throseddu.

## Beth sy'n digwydd yn ystod y cam hwn?

Mae Cod y Dioddefwyr yn gofyn i'r heddlu gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cefnogaeth priodol, ond gall dioddefwyr hefyd gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol. Mae gan ddioddefwyr hawl i'r gwasanaethau hyn, p'un a ydynt wedi adrodd am drosedd neu beidio, ac ar unrhyw adeg, yn cynnwys wedi cwblhau'r ymchwiliad a'r erlyniad.

Mae'r mwyafrif o gefnogaeth i ddioddefwyr wedi ei gomisiynu'n lleol gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau, yn seiliedig ar alw a blaenoriaethau lleol. Mae rhai gwasanaethau wedi eu comisiynu'n genedlaethol, yn cynnwys troseddau effaith uchel sy'n galw am gefnogaeth arbenigol, fel y Gwasanaeth Dynladdiad. Mae eraill wedi derbyn cyfuniad o gyllid cenedlaethol a chyllid lleol, fel gwasanaethau cefnogaeth trais. Mae gwasanaethau a gynigir gan gyrff statudol, fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr un mor bwysig o ran sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cefnogaeth briodol.

## Beth yw'r heriau?

### Gall cael mynediad at y gefnogaeth briodol ar yr amser cywir fod yn anodd

Efallai y bydd dioddefwyr yn defnyddio gwasanaethau emosiynol, ymarferol, therapiwtig a chlinigol yn rhan o'u hadferiad, trwy nifer o wahanol asiantaethau a sefydliadau trydydd sector. Fe wyddom y gall diffyg gwybodaeth gyson, ac ymagwedd anghydlynol wneud y broses hon yn un rhwystredig, gan leihau effaith bositif y gwasanaethau hyn.

### Mae natur newidiol troseddau ac anghenion dioddefwyr wedi effeithio ar argaeledd cefnogaeth

Mae'r tirlun cefnogaeth presennol yn gymhleth. Daw cyllid o sawl rhan o lywodraeth ac mae gwahanol gomisiynwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau gwahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i wasanaethau a chomisiynwyr ymateb yn gyflym i droseddau newydd ac anghenion newidiol, sy'n golygu nad yw cefnogaeth ar gael pan fydd dioddefwyr ei angen bob tro.

Rydym hefyd angen gwella ein cydnabyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng troseddwyr a dioddefwyr yn ein gwasanaethau. Mae nifer o droseddwyr wedi bod yn ddioddefwyr troseddau (mae o leiaf 60% o fenywod yn y carchar yn adrodd eu bod wedi dioddef cam-drin domestig) ac mae ganddynt anghenion cymhleth sydd wedi bod yn rhwystr i gael y gefnogaeth maent angen.[27]

### Amrywiaethau yn ansawdd cefnogaeth

Dylai'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr fod o safon uchel yn gyson. Mae darparu cyfrifoldebau comisiynu i PCCs wedi galluogi gwasanaethau i addasu i anghenion dioddefwyr lleol. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg safonau cyson ac nid yw arfer da yn cael ei rannu bob tro. Er y gall fod sawl enghraifft o ofal o ansawdd uchel, ble mae'r dioddefwr yn ganolog, rydym hefyd yn cydnabod fod yna amrywiaethau yn y gefnogaeth sydd ar gael.

Agorodd **Voice**, hyb newydd i wasanaethau dioddefwyr, yn Swydd Northampton y llynedd.

Mae cefnogaeth gyffredinol i ddioddefwyr a thystion, yn ogystal â chefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig, nawr ar gael dan un to, sy'n golygu y gall dioddefwyr gael y gefnogaeth addas iddyn nhw yn gyflym, hawdd ac mewn un lle.

Yn Swydd Nottingham, datgelodd ymgynghoriadau gyda dioddefwyr gyda nodweddion gwarchodedig nad oeddynt fel arfer yn adrodd am droseddau i'r heddlu, nac yn cael mynediad at wasanaethau cefnogaeth prif ffrwd, ac yn hytrach yn chwilio am gefnogaeth gan sefydliadau cymunedol dibynadwy.

Arweiniodd hyn at ddatblygiad y model **Pwyntiau Cymunedol**. Mae sefydliadau lleol yn derbyn hyfforddiant a sicrwydd ansawdd gan Victim CARE Swydd Nottingham er mwyn gallu cefnogi dioddefwyr nad ydynt eisiau cyrchu gwasanaethau prif ffrwd, a'u cyfeirio tuag at y cymorth arbenigol sydd ar gael.

## I daclo'r heriau hyn, byddwn yn:

### Cynyddu argaeledd gwasanaethau trwy gyllid mwy cydlynol a chynaliadwy

**Gweithio ar draws llywodraeth i wella aliniad cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth dioddefwyr.** Mae'r tirlun cyllid cyfredol yn gymhleth – gyda chyllid o sawl cronfa arian llywodraeth yn mynd tuag at amrywiaeth o gomisiynwyr lleol a chenedlaethol. Byddwn yn cydlynu a chyfuno cyllid, i gynyddu ei effaith.

**Adolygu effeithiolrwydd a gwariant ar wasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol**, i fodloni un o argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol.

**Gynyddu gwariant o £31m yn 2018 i £39m yn 2020/21 i wella gwasanaethau a llwybrau ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr trais a cham-drin rhywiol sy'n ceisio cymorth at ac o Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.** Byddwn yn gweithio i sicrhau gwell integreiddiad rhwng gwasanaethau statudol fel y GIG a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth ystyrlon a gydol oes i'r rhai sydd wedi dioddef ymosodiadau a cham-drin rhywiol. Bydd hyn yn creu gwell cefnogaeth a gwybodaeth ac yn lleihau'r angen i ddioddefwyr ddweud eu stori sawl gwaith.

**Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr trais rhywiol.** Byddwn yn ariannu gwasanaethau trais cenedlaethol am isafswm o ddwy flynedd, ac yn archwilio comisiynu gwasanaethau pellach gan PCCs i wella cefnogaeth i ddioddefwyr trais rhywiol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r heddlu i gynyddu ymwybyddiaeth o Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) ar gyfer dioddefwyr LGBT, ac ystyried sut i wella cefnogaeth i'r rhai sy'n uniaethu fel pobl anneuaidd a rhyngrywiol. Byddwn hefyd yn datblygu canllaw comisiynu a gweithio gyda Chymdeithas Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i wella rhannu arfer gorau.

Byddwn yn gweithio gydag ardaloedd PCC i sicrhau eu bod mewn safle da i gomisiynu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion arbenigol dioddefwyr trais rhywiol a chamfanteisio.

**Cynyddu cyllid o £200,000 dros ddwy flynedd i ddarparu cefnogaeth eiriolaeth bellach i deuluoedd wedi eu heffeithio gan ddynladdiad domestig.** Rydym eisiau sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth, sy'n cydsynio, yn derbyn cefnogaeth eiriolaeth arbenigol.

**Ehangu'r gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth Dynladdiad.** Ar hyn o bryd, mae'n cefnogi teuluoedd yn genedlaethol sy'n colli perthnasau trwy lofruddiaeth a dynladdiad, gyda chronfa unigol i deuluoedd a aeth i brofedigaeth cyn sefydlu'r gwasanaeth yn 2010. I sicrhau bod y gefnogaeth orau ar gael i'r holl deuluoedd, o Ebrill 2019 bydd y Gwasanaeth Dynladdiad yn cael ei ehangu i gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd llofruddiaeth a dynladdiad cyn ei sefydlu.[28] **Rydym hefyd yn adeiladu a datblygu gofod cymunedol ar-lein diogel** ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth i wella cefnogaeth cyfoed i gyfoed.

**Gwario £8 miliwn i wella cefnogaeth ar gael i blant sy'n dyst i gam-drin domestig.** Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Gam-drin Domestig, a fydd yn cael ei gyhoeddi tua diwedd 2018.

**Gwario £18.8m ar wasanaethau llety cam-drin domestig yn Lloegr, yn cynnwys lloches, yn 2018-2020.** Mae'r rhain yn allweddol i ddioddefwyr allu symud ymlaen i ddiogelwch ac annibyniaeth. Rydym yn ymroddedig i helpu awdurdodau lleol i sicrhau nad oes yr un dioddefwr yn cael ei droi i ffwrdd o'r gefnogaeth angenrheidiol ac yn cynnal adolygiad o sut mae gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu comisiynu ar draws Lloegr.

Mae nifer o PCCs wedi creu **pwyntiau cyswllt unigol** ar gyfer dioddefwyr, gan gyd-leoli gwasanaethau i wella cydlyniad a lleihau'r angen i'r dioddefwr ailadrodd ei stori.

Mae Victims First Northumbria (VFN) yn darparu siop un stop i ddioddefwyr ble byddant yn derbyn diweddariadau ar eu hachos, ble cydlynir gofal dioddefwyr, dewisiadau ar gyfer cyfiawnder adferol a chefnogaeth wrth fynd i'r llys a thrwy gydol y broses.

Yn ogystal â darparu llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol lleol, mae Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, Uned Gofal Tystion ar y cyd yr Heddlu/CPS a'r arbenigwyr cyfiawnder adferol wedi eu cydleoli. Mae atebwyr galwadau a swyddogion heddlu rheng flaen yn cyfeirio dioddefwyr at VFN sy'n gweithio gyda'r dioddefwr i greu Cynllun Adfer Personol.

Mae gan Swydd Gaergrawnt wasanaethau cefnogaeth pen i ben trwy Gydlynwyr Gofal Dioddefwyr a Thystion. Meddai un dioddefwr ymosodiad: "Mae wedi bod yn beth da iawn i gael un pwynt cyswllt ar gyfer yr ochr gofal dioddefwyr o bethau a'r diweddariadau o'r llys. Cyn hyn, roedd gen i gymaint o wahanol bobl roedd yn anodd cadw trywydd ar bopeth. Mae gallu siarad gydag un cyswllt unigol sy'n darparu nid yn unig y cymorth ymarferol ond cefnogaeth emosiynol hefyd wedi bod yn amhrisiadwy. Mae wedi cael effaith bositif iawn arna i, ac yn sicr wedi fy rhoi ar y ffordd i fod ar fy nhraed eto."

Mae'r Hyb Dioddefwyr a Thystion yn cydleoli nyrsys iechyd meddwl, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, gweithwyr allgymorth cam-drin domestig, staff o'r gwasanaeth tystion yn y llys, gweithiwr cymorth arbenigol i bobl ifanc, cydlynwyr cyfiawnder adferol a thîm o wirfoddolwyr cymunedol.

**Cefnogaeth ar gael p'un ai yw dioddefwyr yn adrodd trosedd neu beidio**

### Gwella mynediad at wasanaethau trwy wella integreiddiad a chyfeirio gwasanaethau cefnogaeth

**Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ddatblygu fframwaith yng Nghymru a Lloegr, yn sefydlu'r trefniadau cefnogaeth ddylai fod ar waith os bydd digwyddiad troseddol difrifol fel ymosodiad terfysgol.** Bydd hyn yn helpu sicrhau ble bynnag y digwydd y drosedd, a ble bynnag mae'r dioddefwyr a'u teuluoedd yn byw yng Nghymru a Lloegr, byddant yn cael eu cyfeirio at y gefnogaeth angenrheidiol.

**Diweddaru'r canllaw Cadw Plant yn Ddiogel** mewn Addysg fel bod gan bob ysgol yn Lloegr fynediad at yr wybodaeth maent angen i gefnogi plant sy'n ddioddefwyr trosedd ac yn gallu gweithredu'n gynt. Bydd y Canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i Gymru hefyd yn cael ei ddiweddaru i ystyried datblygiad polisïau diogelu. Mae gan ysgolion rôl allweddol i'w chwarae o ran diogelu plant a sicrhau ble mae plant yn ddioddefwyr trosedd, maent yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cefnogaeth priodol i'w helpu i ymdopi ac adfer.

**Peilotio model 'Tŷ Plentyn' i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.** Mae'r model yn dod â gwasanaethau lluosog ynghyd mewn amgylchedd caredig i blant i leihau trawma atodol i ddioddefwyr. Gan adeiladu ar beilot cyntaf yn Swydd Durham, rydym yn profi ymhellach gyda pheilot dwy flynedd yn Llundain yn 2018.

**Annog dulliau integredig lleol i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n uno asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a darpariaeth cefnogaeth.** Rydym yn gweithio gyda Swyddfa Maer Llundain ar gyfer Plismona a Throseddau ar wasanaeth newydd arloesol i uno elfennau o'r gefnogaeth a gynigir i dystion cyn treial gydag amrywiaeth o wasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr a gomisiynwyd yn Llundain, gan obeithio creu gwasanaeth mwy esmwyth.

**Torri'r cylch o aildroseddu ac ail erledigaeth** trwy nodi datrysiadau fel bod troseddwyr sy'n ddioddefwyr troseddau yn derbyn y gefnogaeth a gofal mae ganddynt hawl i'w gael. Yn rhan o'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, rydym yn buddsoddi £3.5m mewn darpariaeth gymunedol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn archwilio opsiynau i ddatblygu llwybr dioddefwyr i droseddwyr benywaidd yn Lloegr. Felly hefyd, yng Nghymru, byddwn yn defnyddio dulliau wedi eu hysbysu gan drawma i gefnogi troseddwyr benywaidd sy'n ddioddefwyr ac yn ystyried sut allwn ni ymyrryd yn gynnar ar gyfer menywod sy'n datgelu eu bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r system cyfiawnder.

Mae'r prosiect Gwau'r We yn creu gwasanaethau ar-lein grymusol sy'n ehangu cyrhaeddiad cefnogaeth trais rhywiol i oroeswyr cam-drin rhywiol ar draws y wlad.

Trwy gronni arbenigedd menywod yn gweithio gyda goroeswyr, a goroeswyr eu hunain, mae Rape Crisis Cymru a Lloegr wedi datblygu llwyfan ar gyfer darparu detholiad o wasanaethau ar-lein arbenigol, gan gyd-fynd ag a gwella gwasanaethau presennol. Gobeithir y bydd hyn yn lleihau amserau aros am gefnogaeth, ac yn sicrhau y gall goroeswyr gael mynediad at wasanaethau o safon sy'n addas iddynt, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Disgwylir i'r llwyfan a gwasanaethau ar-lein gael eu lansio erbyn Hydref 2018.

### Sicrhau bod gwasanaethau yn darparu dioddefwyr â gwasanaeth o safon, yn seiliedig ar eu hanghenion

**Peilotio'r Uned Gofal Dioddefwyr Troseddau Economaidd**, gwasanaeth newydd i gefnogi dioddefwyr bregus twyll a seiberdroseddau ym Manceinion a Gorllewin Canolbarth Lloegr i helpu atal targedu mynych gan dwyllwyr. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor atal twyll benodol a chyfeirio at wasanaethau cefnogaeth i helpu dioddefwyr bregus ble nad ymchwilir i'r troseddau i ymdopi ac adfer.

**Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern a chamfanteisio.** Creu llefydd diogel newydd i ddioddefwyr, gorfodi safonau ar gyfer tai diogel, a gwella'r gefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r gymuned. Bydd dioddefwyr yn gallu cael mynediad at gefnogaeth arbenigol yn gyflym, ac yn llai agored i gamfanteisio yn y dyfodol. Rydym wedi cyhoeddi **£2m yn ychwanegol ar gyfer Eiriolwyr Annibynnol Masnachu mewn Plant**, gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n cefnogi plant i lywio'r systemau cymhleth o ofal cymdeithasol, mewnfudo a chyfiawnder troseddol. Rydym hefyd wedi **lansio adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015** i sicrhau bod deddfwriaeth yn ymatebol i'r drosedd esblygol hon.

**Cefnogi dioddefwyr ymosodiadau asid** trwy ddefnyddio llwybr gofal llosgiadau arbenigol sy'n cynnwys mynediad at ofal seicolegol, adferiad a chefnogaeth allgymorth.

**Diwygio'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb**, yn cynnwys mesurau newydd i hyfforddi swyddogion a staff yr heddlu ar ddelio ag anghenion dioddefwyr troseddau casineb. Bydd hyn yn cynnwys gwella eu dealltwriaeth o'r gefnogaeth leol sydd ar gael i ddioddefwyr.

**Cymryd camau pellach ar drais rhywiol, cam-drin domestig, stelcio a'r hyn a elwir yn drais 'seiliedig ar anrhydedd'** mewn Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched diwygiedig. Yn ystod y Senedd hon, rydym wedi ymrwymo i £100m mewn cyllid Llywodraeth ganolog penodedig i daclo Trais yn Erbyn Menywod a Merched.

**Cyflwyno safonau unffurf a fframwaith newydd o ddangosyddion ar gyfer ein gwasanaethau a ariennir yn ganolog, ar gyfer PCCs a Chanolfannau Cyfeirio Ymosodiad Rhywiol**, i wella hyder mewn gwasanaethau a gomisiynir, ac i gael gwell dealltwriaeth o sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio. Mae'n allweddol ein bod yn sicrhau bod y gwasanaethau a ariennir gennym o safon uchel ac yn bodloni anghenion dioddefwyr.

## Cefnogaeth ar gael p'un ai yw dioddefwyr yn adrodd trosedd neu beidio

| Crynodeb o faterion allweddol | Gweithred |
|---|---|
| **Cynyddu argaeledd gwasanaethau trwy gyllid mwy cydlynol a chynaliadwy** | |
| • Daw cyllid ar gyfer cefnogaeth o sawl rhan o lywodraeth ac mae gwahanol gomisiynwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau cydgysylltiedig.<br>• Mae'n anodd ymateb yn gyflym i anghenion newidiol a materion newydd, sy'n golygu nad yw cefnogaeth ar gael pan fydd dioddefwyr ei angen bob tro. | • Alinio cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr.<br>• Adolygu gwariant ar wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol.<br>• Cynyddu gwariant o £31m yn 2018 i £39m yn 2020/21 i wella gwasanaethau a llwybrau ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr trais a cham-drin rhywiol sy'n ceisio cymorth at ac o Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.<br>• Ariannu gwasanaethau trais cenedlaethol am isafswm o ddwy flynedd ac archwilio comisiynu gwasanaethau pellach gan PCCs.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer dioddefwyr LGBT, ac ystyried sut i wella cefnogaeth i'r rhai sy'n uniaethu fel pobl anneuaidd a rhyngrywiol.<br>• Cynyddu cyllid o £200,000 dros ddwy flynedd ar gyfer cefnogaeth eiriolaeth i deuluoedd wedi eu heffeithio gan ddynladdiad domestig.<br>• Ehangu'r gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth Dynladdiad.<br>• Adeiladu a datblygu gofod cymunedol ar-lein diogel i deuluoedd mewn profedigaeth i wella cefnogaeth cyfoed i gyfoed.<br>• Gwario £8m i wella cefnogaeth ar gael i blant sy'n dyst i gam-drin domestig.<br>• Gwario £18.8m ar wasanaethau llety cam-drin domestig yn 2018-2020. |
| **Gwella mynediad at wasanaethau trwy wella integreiddiad a chyfeirio gwasanaethau cefnogaeth** | |
| • Diffyg gwybodaeth gyson ar pa gefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr.<br>• Mae gwahanol sefydliadau yn cynnig gwahanol fathau o wasanaeth i ddioddefwyr, ac nid yw'r gwasanaethau mor integredig a chydlynol ag y gallent fod. | • Datblygu fframwaith ar gyfer trefniadau cefnogaeth os bydd digwyddiad mawr.<br>• Adolygu canllaw Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (Lloegr) a chanllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Cymru).<br>• Peilotio model 'Tŷ Plentyn' i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.<br>• Datblygu dulliau integredig lleol yn cynnwys gwasanaeth newydd mewn partneriaeth â Swyddfa Maer Llundain dros Blismona a Throseddu.<br>• Archwilio opsiynau i ddatblygu llwybr dioddefwyr i droseddwyr benywaidd. |
| **Sicrhau bod gwasanaethau yn darparu dioddefwyr â gwasanaeth o safon, yn seiliedig ar eu hanghenion** | |
| • Diffyg safonau cyson ac nid yw arfer da yn cael ei rannu bob tro. Mae yna amrywiaeth yn ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr. | • Peilotio'r Uned Gofal Dioddefwyr Troseddau Economaidd.<br>• Creu llefydd diogel ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth fodern.<br>• Lansio Adolygiad o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.<br>• Gwario £2m ar Eiriolwyr Annibynnol Masnachu mewn Plant.<br>• Gwella cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau asid.<br>• Diwygio'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb.<br>• Diwygio'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched.<br>• Datblygu Canllaw comisiynu a gwella rhannu arfer gorau.<br>• Cyflwyno safonau unffurf a fframwaith dangosyddion. |

**Rhai o'r newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud i'r Cod y Dioddefwyr**

- ✓ Darparu gwybodaeth glir ar sut fydd data personol y dioddefwr yn cael ei rannu rhwng asiantaethau a gwasanaethau cefnogaeth gydag esboniadau clir o sut gall dioddefwyr optio i mewn neu allan.

## Stori Sam



Ym Medi 2016 yn dilyn noson allan, cafodd Sam, DJ proffesiynol o Fanceinion, ei dreisio mewn ‘parti hwyrach’ gan ddau ddyn y cyfarfu â nhw’r noson honno. Wedi dychwelyd i'r fflat a rannai gyda’i gariad y bore canlynol, adroddodd Sam am drawma’r trais i’r Heddlu, ac yn fuan wedyn dychwelodd i’w dref enedigol o Newark ble dioddefodd ddirywiad emosiynol a chael ei ddiagnosio gydag anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Mewn ymgais am gymorth a gyda chefnogaeth ei deulu, fe gysylltodd â Survivors Manchester gyda’r gobaith o gael cefnogaeth i ymdopi gyda chanlyniad ei brofiad erchyll. Teithiodd Sam yn ôl i Fanceinion ar gyfer asesiad ac yn fuan wedyn dechreuodd ymgysylltu gyda’r gwasanaeth Therapi ar Sail Trawma, a ariennir yn rhannol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Sam yn cyfaddef pe na fyddai wedi cael help Survivors Manchester, na fyddai yma heddiw ac yn rhan o’i adferiad ac eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i’r sefydliad a’i cefnogodd mae Sam wedi rhannu ei stori gyda’r tîm i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant er mwyn ceisio annog dynion eraill i beidio cadw’n dawel, ac o ganlyniad mae wedi cyrraedd cynulleidfa fyd eang. Mae Sam yn ymgyrchu'n ddiflino i sicrhau bod lleisiau dioddefwyr/goroeswyr trais gwrywaidd yn cael gwrandawiad, ac i gydnabod hyn, cafodd Sam ei gyhoeddi yn Llysgennad Survivors Manchester yn Hydref 2017.

## Stori Vera



Mae Vera yn fenyw 89 oed yn dioddef o ddementia a oedd yn ddioddefwr ymgais i dwyllo. Derbyniodd alwad ffôn gan ddyn yn esgus ei fod yn ffonio o’i banc ac yn gofyn iddi dynnu swm sylweddol o arian allan a fyddai'n cael ei gasglu o’i thŷ. Fe wnaeth staff y banc ymyrryd pan geisiodd dynnu'r arian allan a chafodd ei chyfeirio at yr Uned Gofal Dioddefwyr Troseddau Economaidd (ECVCU). Nododd yr ECVCU ei bod wedi dioddef twyll ar dri achlysur arall ac yn cael ei thargedu'n gyson gan unigolyn yn cyflwyno ei hun fel swyddog yr heddlu.

Gwnaethpwyd atgyfeiriad diogelu ac mae terfynau wedi eu gosod ar faint o arian y gall godi o’i chyfrif banc er mwyn atal colledion yn y dyfodol. Gosodwyd dyfais Truecall i atal twyllwyr rhag cysylltu dros y ffôn a gosod camerâu cylch cyfyng. Hyd yma, mae hyn wedi atal erledigaeth bellach ac mae anghenion iechyd a lles eraill nawr yn cael eu bodloni gan dîm diogelu amlasiantaethol.

# Os bydd dioddefwr yn adrodd am drosedd

## Taith dioddefwr

Mae hyder yn yr amrywiol asiantaethau cyfiawnder troseddol yn allweddol i ymgysylltiad dioddefwyr. Awgryma data diweddar Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) bod bron i 29% o achosion yn 2017/18 a fethodd â sicrhau collfarn wedi gwneud hynny oherwydd i ddioddefwr neu dyst stopio ymgysylltu.[29] Mae hyn yn cynnwys pan na fydd dioddefwr yn mynychu'r llys, yn tynnu ei gefnogaeth ar gyfer yr erlyniad yn ôl neu'n tynnu ei dystiolaeth yn ôl. Mae dioddefwyr angen cefnogaeth fel eu bod yn parhau i fod yn hyderus ac yn parhau i ymgysylltu a bod ganddynt yr offer angenrheidiol er mwyn gallu deall a herio penderfyniadau.

## Beth sy'n digwydd yn ystod y cam hwn?

Mae gan yr heddlu nifer o rwymedigaethau i ddioddefwyr dan y Cod y Dioddefwyr. Yn aml nhw yw'r alwad gyntaf ar gyfer dioddefwr wedi i drosedd gael ei chyflawni, a rhaid darparu'r wybodaeth, help a gwasanaethau y mae gan y dioddefwr hawl iddynt.

Dan y Cod, rhaid i'r heddlu nodi unrhyw fregusrwydd ynghylch y dioddefwr a sefydlu mesurau diogelwch priodol, yn cynnwys hawliau uwch. Rhaid iddynt ystyried pa gefnogaeth atodol fydd dioddefwr angen yn ystod yr ymchwiliad, cyfweliad ac yn y llys.

Dan y Cod, mae gan ddioddefwyr hefyd hawl i dderbyn gwybodaeth am gyfiawnder adferol; proses sy'n agor proses o gyfathrebu rhwng dioddefwyr a throseddwyr. Gall ddarparu ffordd i gloi'r mater a galluogi'r dioddefwr i symud ymlaen. Mae hefyd yn galluogi dioddefwyr i gael llais a mynegi barn yn sut i benderfynu ar droseddau, yn cynnwys cytuno ar weithgaredd adferol neu i wneud iawn ar ran y troseddwr.

Mater i'r heddlu yw p'un ai i ymchwilio i drosedd neu beidio. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth y dioddefwr os byddant yn penderfynu peidio ymchwilio, neu'n atal ymchwiliad. Os bydd yr heddlu'n ymchwilio, rhaid iddynt ddweud wrth ddioddefwyr pan fydd rhywun wedi ei arestio, ei gyfweld dan rybudd, ei ryddhau heb gyhuddiad, neu ei gyhuddo o drosedd. Os bydd un a amheuir yn cael ei ryddhau heb gyhuddiad, dylai dioddefwyr dderbyn esboniad pam.

Os nodir un dan amheuaeth, fel arfer y CPS (ond weithiau'r heddlu) fydd yn penderfynu os dylid cyhuddo'r unigolyn neu beidio. Yn rhan o'r prawf lles y cyhoedd dan y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron, bydd yr erlynydd yn ystyried effaith y drosedd ar y dioddefwr. Os nad ydynt yn fodlon gyda phenderfyniad i beidio erlyn, efallai y bydd gan ddioddefwyr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

## Beth yw'r heriau?

### Mae boddhad dioddefwyr gyda'r heddlu yn amrywio

Mae rhai dioddefwyr yn teimlo mai'r heddlu yw'r agwedd fwyaf positif o'u taith trwy'r system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae Swyddogion Cyswllt Teuluol sydd wedi eu hyfforddi i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth yn aml yn derbyn adborth da.

Fodd bynnag, nid oes hyfforddiant cyson ar draws heddluoedd i ddelio gyda dioddefwyr, yn arbennig ble mae angen sgiliau arbenigol, fel cam-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol.

**Yng Ngorllewin Mercia a Swydd Warwick** cyfarfu staff cyfiawnder adferol gwasanaethau dioddefwyr gyda'r Gymdeithas Lles Mwslimaidd leol i drafod cyfiawnder adferol fel modd o ddelio gyda digwyddiadau troseddau casineb lleol a mynychu'r mosg i gynnig hyfforddiant Cyfiawnder Adferol gychwynnol iddynt.

Yn ogystal â defnyddio cyfiawnder adferol fel ymateb cyfiawnder troseddol, mae'r ardal hon hefyd yn defnyddio prosesau adferol anffurfiol i feithrin perthynas o fewn grŵp neu gymuned, gan atal neu leihau'r tebygolrwydd y bydd gwrthdaro neu niwed yn digwydd, yn hytrach na dim ond mewn ymateb i ddigwyddiad o niwed. Gallai hyn fod yn broses fwy priodol mewn sefyllfa ble mae nifer o bobl wedi eu niweidio ac mae nifer yn gyfrifol am niweidio, o fewn cymuned benodol (er enghraifft, i ddatrys gwrthdaro rhwng gangiau).

Mae'r gwasanaeth wedi recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwr Mwslimaidd ifanc i helpu hwyluso cyfiawnder adferol. Mae hyn wedi dechrau sicrhau canlyniadau positif i ddioddefwyr. Yn ogystal, mae Cynghorwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr heddlu yn y ddwy ardal blismona wedi eu hyfforddi i ddarparu cyfiawnder adferol ac i ddefnyddio dulliau adferol wrth weithio gyda gwahanol gymunedau.

### Nid yw pob dioddefwr yn cael cynnig ei hawliau dan y Cod y Dioddefwyr

Mae Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) yn un o hawliau allweddol y Cod, yn darparu cyfle personol i ddioddefwyr fynegi sut mae trosedd wedi effeithio arnynt. Ac eto, canfu'r Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr mai dim ond oddeutu 15% o ddioddefwyr a ddywedodd eu bod wedi cael cyfle gan yr heddlu i wneud un.[30] Hefyd, mae tystiolaeth mai dim ond 4% o ddioddefwyr oedd yn ymwybodol y cynigiwyd cyfiawnder adferol (ble roedd troseddwr wedi ei nodi).[31]

### Nid yw anghenion dioddefwyr yn cael eu hasesu'n ddigon buan neu yn y ffordd gywir

Nid yw dioddefwyr bregus sydd â hawl i wasanaethau uwch yn cael y gefnogaeth briodol pob tro. Canfu Arolwg Boddhad Dioddefwyr a Thystion y CPS (2015)[32] fod dioddefwyr bregus a dioddefwyr eraill oedd â hawl i wasanaethau uwch yn fwy tebygol o adrodd iddynt gael eu trin yn amharchus.[33] Felly hefyd, awgrymodd tystiolaeth gynharach nad oedd pawb o'r rhai oedd â hawl i wasanaethau uwch yn cael eu nodi'n gynnar neu hyd yn oed eu nodi o gwbl.[34] Gall anghenion dioddefwyr newid dros gyfnod o amser ac nid yw'r system bresennol yn darparu digon o gyfle i weithwyr proffesiynol ailasesu'r anghenion hyn fel bod dioddefwyr yn barod ar gyfer y llys.

### Diffyg cysondeb o ran sut y cefnogir dioddefwyr wedi iddynt adrodd am drosedd

Rhaid i'r heddlu gynnig atgyfeirio dioddefwyr at gefnogaeth arbenigol i'w helpu i ymgysylltu'n llawn gyda'r system cyfiawnder troseddol. Fe wyddom nad yw atgyfeiriadau ar gael bob tro, ac nad yw gwybodaeth am yr holl wasanaethau perthnasol wedi ei ddarparu i bawb. Awgrymodd adroddiad diweddar gan y Comisiynydd Dioddefwyr nad oedd pawb oedd yn gymwys yn cael cynnig Canolwyr Cofrestredig (arbenigwyr cyfathrebu sy'n helpu dioddefwyr a thystion bregus fel plant neu bobl gyda phroblemau iechyd meddwl), ac y gall rhestrau aros fod yn hyd at bedair wythnos.[35]

### Diffyg gwybodaeth hygyrch, amserol a chywir

Gall hyn achosi i ddioddefwyr deimlo'n bell oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol a rhoi'r gorau i gefnogi'r erlyniad. Nid yw dioddefwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth allweddol gan Unedau Gofal Tystion ac asiantaethau cyfrifol eraill. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017, yn ôl y CSEW teimlai ychydig dan 35% o ddioddefwyr i'r heddlu eu hysbysu'n dda iawn neu'n weddol dda am eu hachos.[36] Pan wneir penderfyniad i beidio bwrw ymlaen ag achos, neu os nad yw'r achos yn mynd i'r llys, nid yw dioddefwyr yn cael esboniad amserol neu wybodaeth am beth yw eu hopsiynau i herio'r penderfyniad. Ble rhoddir esboniad, weithiau bydd yn anodd ei ddeall.

Amlygodd yr Adroddiad Thematig Troseddau Casineb waith Heddlu Gorllewin Swydd Efrog gydag asiantaethau partner i annog adrodd a sicrhau yr ymchwilir yn briodol i droseddau a digwyddiadau casineb.

Mae Heddlu Gorllewin Swydd Efrog yn gweithio gyda phartneriaid strategol i gynnig llwybrau adrodd amgen i ddioddefwyr ar lefel genedlaethol trwy wasanaethau adrodd fel Tell MAMA, Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol a StopHate UK ac ar lefel leol trwy ganolfannau adrodd troseddau casineb ar draws Gorllewin Swydd Efrog. Sefydlwyd canolfannau lleol gydag awdurdodau lleol a phartneriaid ac maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn y lleoliadau priodol ar gyfer cymunedau.

Derbyniodd defnydd yr heddlu o broses Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol (MARAC) yn Leeds ar gyfer troseddau casineb glod penodol. Er y'i defnyddir yn draddodiadol ar gyfer troseddau fel cam-drin domestig, mae ymestyn ei ddefnydd i droseddau casineb, a chynnwys Cymorth i Ddioddefwyr, wedi helpu diogelu'r dioddefwyr mwyaf bregus.

## I daclo'r heriau hyn, byddwn yn:

### Gwella profiad dioddefwyr o'r heddlu a'r CPS

**Gwella hyfforddiant yr heddlu ar weithio gyda dioddefwyr.** Mae'r heddlu yn ymroddedig i fewnosod dull cyson i ddelio gyda dioddefwyr ar draws yr holl fathau o droseddau, gan gydnabod fod pob dioddefwr yn unigolyn gydag amrywiol anghenion a bregusrwydd. Bydd y Coleg Plismona yn adolygu'r Cwricwlwm Plismona Cenedlaethol ac yn datblygu cyfres ganolog o adnoddau dysgu i gefnogi dysgu parthed dioddefwyr a thystion. Yna dylai heddluoedd ddefnyddio'r adnodd hon yn sail i unrhyw hyfforddiant lleol perthnasol.

Mae DA Matters yn rhaglen arloesol a ddatblygwyd gan y Coleg Plismona gyda SafeLives. Mae'r ffocws ar ddatgelu tystiolaeth o ymddygiad gorfodol a rheolaethol, gan ymateb yn effeithiol, ac yn bwysicaf fyth sut i wneud dioddefwyr yn ddiogel. Mae'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer ymatebwyr cyntaf a hyrwyddwyr Cam-drin Domestig, gweithdy ar gyfer uwch reolwyr, ond hefyd adolygiadau i asesu newidiadau mewn ymarfer ac agweddau. Hyd yma mae wedi ei fabwysiadu gan 10 o ardaloedd Heddlu ac mae yn y broses o gael ei gyflwyno ymhellach.

**Darparu gwybodaeth amserol a chlir i ddioddefwyr.** Byddwn yn rhoi mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran sut y cyfathrebir â nhw, p'un a ydynt eisiau siarad gyda rhywun arall neu gyfathrebu trwy e-bost neu neges destun. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac amserol a byddwn yn egluro rôl a chyfrifoldeb asiantaethau cyfiawnder troseddol yn y Cod y Dioddefwyr newydd.

Yn y Cynllun Gweithredu LGBT, ymysg nifer o ymroddiadau diogelwch eraill, mae'r CPS yn ymroddedig i weithio gyda rhanddeiliaid LGBT a chyfryngau arbenigol **i godi ymwybyddiaeth o achosion sydd wedi eu herlyn yn llwyddiannus yn ymwneud â dioddefwyr LGBT i gynyddu hyder mewn adrodd am droseddau, yn ogystal ag ymroi i weithio gyda phartneriaid i wella cofnodi a monitro data cydraddoldeb ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, trais a throseddau casineb LGBT.** Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi ymroi i gyflwyno cynigion i derfynu'r arfer o therapi troedigaeth yn y Deyrnas Unedig.

**Cynyddu cyfleoedd i ddioddefwyr ymgysylltu mewn datrysiadau amgen i'r llys.** Mae penderfyniadau tu allan i'r llys yn galluogi'r heddlu i ddelio'n gyflym a chymesur gyda throseddu ar lefel isel heb i ddioddefwyr orfod mynd i'r llys. Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cytuno y bydd pob heddlu, ble fo'n ddichonadwy, yn symud tuag at fframwaith newydd ar gyfer penderfyniadau amodol tu allan i'r llys. Trwy wneud hyn, gall yr heddlu drafod gyda, ac ystyried, barnau'r dioddefwr ar yr amodau a osodir (e.e. iawndal, ymddiheuriad ffurfiol ac/neu broses cyfiawnder adferol). Mae esbonio'r opsiynau a beth maent yn golygu mewn modd clir a sensitif yn allweddol i wneud i'r dull hwn weithio.

### Datblygu mesurau fel bod dioddefwyr yn cael cynnig eu hawliau dan y Cod y Dioddefwyr

**Gwella cyflawniad a hygyrchedd hawliau dioddefwyr.** Byddwn yn defnyddio technoleg newydd, fel camerâu heddlu a wisgir ar y corff, i roi dewis i ddioddefwyr o ran sut a phryd fyddant yn darparu VPS. Rydym wedi cyflwyno canllaw newydd ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol i esbonio beth yw VPS, a sut y gellir ei ddefnyddio a'i ddiweddaru. Byddwn yn egluro cyfrifoldebau'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, yn y Cod y Dioddefwyr.

Yng Nghymru, mae heddluoedd a PCCs yn datblygu datrysiadau arloesol i sicrhau y gall dioddefwyr gael y gefnogaeth maent angen mewn cymunedau gwledig.

**Mae heddlu Dyfed-Powys** wedi sefydlu Goleudy, gwasanaeth mewnol sy'n darparu Swyddogion Cefnogaeth Dioddefwyr a Thystion ar gyfer pob un o siroedd y rhanbarth. Mae'n cynnig ymweliadau i'r cartref ac yn defnyddio lleoliadau allgymorth mewn cymunedau gwledig i leihau baich teithio a chostau. Mae hyn yn sicrhau y gall dioddefwyr gael mynediad at gefnogaeth ble bynnag byddant yn byw.

**Mae Ffocws Dioddefwyr De Cymru**, sy'n cael ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth ymarferol ac emosiynol sydd am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael p'un a yw trosedd wedi ei hadrodd neu beidio neu pryd y digwyddodd. Cynigir cymorth uniongyrchol a thymor hir dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gan dri thîm lleol.

**Mae Heddlu Gogledd Cymru** yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ar draws Gogledd Cymru ac mae ganddynt wirfoddolwyr a staff sy'n siarad Cymraeg yn ei gymunedau gwledig sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol barhaus i ddioddefwyr. Maent yn cynnig ymweliadau cartref yn ogystal â chefnogaeth o ganolfannau allgymorth lleol megis llyfrgelloedd neu ganolfannau cymunedol. Mae eu staff yn teithio i ac o ardaloedd gwledig i fodloni anghenion dioddefwyr ble bynnag fo'n bosibl.

**Mae gan Heddlu Gwent** 'Swyddog Gwarchod Ffermydd' sy'n ymgysylltu gyda chymunedau. Connect Gwent yw eu hyb dioddefwyr amlddisgyblaethol gyda phartneriaid allweddol fel Cymorth i Ddioddefwyr ac Iechyd.

**Gwella ansawdd esboniadau am benderfyniadau i beidio erlyn.** Mae'r CPS yn newid eu proses i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn esboniad clir o pam y gwnaethpwyd penderfyniad, ac fel bod dioddefwyr yn deall eu hawliau i herio'r penderfyniad. Byddwn yn gwella sut ydym yn cyfathrebu gyda dioddefwyr, gan esbonio sut gall dioddefwyr gael mynediad at y cynllun hawl i adolygiad mewn ffordd llawer mwy clir a syml. Byddwn hefyd yn tynhau cydymffurfiad gydag amserlenni i sicrhau bod y broses i ddioddefwyr bregus dderbyn gwybodaeth ar eu hachosion yn fwy unol gyda hynny ar gyfer cyfranogwyr eraill.

**Gofyn i PCCs sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder adferol ar gael yn eu hardaloedd**, bod dioddefwyr yn gwybod sut i gael mynediad atynt a bod y gwasanaethau a gomisiynir yn ddiogel. Bydd hyn yn galluogi mwy o ddioddefwyr i wneud dewis gwybodus, mewn cyfnod sy'n addas iddynt ac i fod yn sicr y bydd y broses wedi ei harwain gan ymarferwyr medrus sy'n gallu gwneud yr asesiadau risg priodol i ddiogelu'r holl gyfranogwyr yn y broses ac atal ail erledigaeth. Yng Nghymru, rydym yn datblygu dull cyfiawnder adferol cryfach i gyfiawnder ieuenctid a throseddu gan fenywod. Bydd yn galw am ymgysylltu helaeth gyda dioddefwyr troseddau i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni mewn modd priodol ac effeithiol.

### Asesu anghenion dioddefwyr yn fuan ac yn y ffordd iawn

**Recriwtio mwy o Ganolwyr Cofrestredig** i sicrhau bod yr holl ddioddefwyr sydd angen eu cefnogaeth yn gallu cael mynediad at un ac yn gallu cyflwyno eu tystiolaeth gorau o ganlyniad. Byddwn yn cynyddu'r nifer o Ganolwyr Cofrestredig o 25% erbyn 2018. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd ac yn cynyddu'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i hybu'r gefnogaeth y gallant ddarparu.

**Lansio canllaw diwygiedig i'r heddlu ar gyfweld a chefnogi dioddefwyr**. Am y tro cyntaf, bydd y canllaw hwn yn amlinellu rôl yr heddlu wrth asesu a chyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cefnogaeth, yn ogystal â gwerth darpariaethau cefnogaeth i helpu dioddefwyr i roi tystiolaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod dioddefwyr bregus yn cael eu nodi mor fuan â phosibl, ac y trefnir mesurau arbennig i helpu dioddefwr i gyflwyno ei dystiolaeth gorau i'r llys. Bydd cael hyn yn iawn ar bwynt cyswllt cyntaf y dioddefwr gyda'r system cyfiawnder yn golygu eu bod yn fwy tebygol o barhau i fod wedi ymgysylltu a gweld eu troseddwr yn cael ei ddwyn i gyfiawnder. Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen diwygio hawliau uwch yn y Cod y Dioddefwyr.

**Adolygu Unedau Gofal Tystion**, i symleiddio'r broses ar gyfer dioddefwyr a thystion. Byddwn yn egluro rolau a chyfrifoldebau a chyflwyno safonau craidd i sicrhau y cynigir gwasanaeth cyson, waeth ble mae dioddefwr yn byw. Bydd hyn yn helpu lleihau'r nifer o bobl mewn cysylltiad â dioddefwyr ac yn gwella asesiadau anghenion. Byddwn hefyd yn gwella ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd i ddioddefwyr gan yr heddlu a CPS ar ôl y Gwasanaeth Tystion i annog mwy o atgyfeiriadau, a chynyddu cyfranogiad mewn ymweliadau cyn treialon.

| Crynodeb o faterion allweddol | Gweithred |
|---|---|
| **Gwella profiad dioddefwyr gyda'r heddlu** | |
| ‣ Mae yna rai rhyngweithiadau positif iawn gyda'r heddlu, ond nid oes hyfforddiant cyson ar draws heddluoedd i ddelio gyda dioddefwyr, yn arbennig ble mae angen sgiliau arbenigol, fel cam-drin domestig a cham-drin plant. | • Y Coleg Plismona i adolygu'r Cwricwlwm Plismona Cenedlaethol ac i ddatblygu cyfres ganolog o adnoddau dysgu i gefnogi dysgu parthed dioddefwyr a thystion.<br>• Cyflwyno hyfforddiant DA Matters i heddluoedd.<br>• Cyflwyno proses newydd i gynnig mwy o ddewis i ddioddefwyr, ble fo'n briodol, o ran sut maent yn derbyn gwybodaeth am eu hachosion.<br>• Codi ymwybyddiaeth o achosion a erlynwyd yn llwyddiannus yn ymwneud â dioddefwyr LGBT a gwella data cydraddoldeb ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, trais a throseddau casineb LGBT.<br>• Cefnogi heddluoedd i symud i fframwaith ar gyfer penderfyniadau tu allan i'r llys amodol, gan ystyried barn y dioddefwr ynghylch yr amodau a osodir. |
| **Datblygu mesurau fel bod dioddefwyr yn cael cynnig eu hawliau dan y Cod y Dioddefwyr** | |
| ‣ Nid yw dioddefwyr yn cael cynnig eu hawliau bob tro, yn cynnwys y cyfle i wneud Datganiad Personol y Dioddefwr ac i gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol.<br>‣ Nid yw dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth glir am eu hawliau i adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu CPS. | • Darparu mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran sut i wneud eu Datganiad Personol y Dioddefwr.<br>• Cyflwyno canllaw newydd ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddarparu cyngor ymarferol i gynorthwyo wrth esbonio'r broses Datganiad Personol y Dioddefwr i ddioddefwyr.<br>• Cyflwyno proses sicrwydd ansawdd genedlaethol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybodaeth glir, gryno a hawdd i'w deall am y penderfyniad i stopio eu hachos a, ble fo'n berthnasol, eu hawl i adolygiad dan Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.<br>• Gofyn i PCCs sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder adferol ar gael yn eu hardaloedd.<br>• Datblygu dull cyfiawnder adferol cryfach i gyfiawnder ieuenctid a throseddu gan fenywod yng Nghymru. |
| **Asesu anghenion dioddefwyr yn fuan ac yn y ffordd iawn** | |
| ‣ Nid yw dioddefwyr sydd â hawl i wasanaethau uwch yn eu derbyn pob tro.<br>‣ Nid yw dioddefwyr bregus a'r rhai sydd â hawl i wasanaethau uwch yn cael eu nodi gan yr heddlu pob tro. | • Recriwtio 25% yn fwy o Ganolwyr Cofrestredig a gwella hyfforddiant.<br>• Cyflwyno canllaw diwygiedig ar gyfer cyfweliadau heddlu gyda dioddefwyr.<br>• Cyflwyno canllaw newydd ar gyfer Unedau Gofal Tystion i wella'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr ar rôl y Gwasanaeth Tystion yn y Llys. |

**Rhai o'r newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud i'r Cod y Dioddefwyr**

- **Egluro rolau a chyfrifoldebau'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr Heddlu a CPS.**
- **Ystyried os oes angen diwygio hawliau uwch.**
- **Tynhau cydymffurfiad gydag amserlenni i sicrhau bod y broses i ddioddefwyr bregus dderbyn gwybodaeth am eu hachosion yn fwy unol gyda hynny ar gyfer cyfranogwyr eraill.**
- **Darparu gwell gwybodaeth ar hawl dioddefwr i ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu CPS i beidio bwrw ymlaen ag achos a chefnogaeth yn hyn.**

## Stori Rebecca



Anfonodd menyw ddienw ymholiad at wasanaeth cymorth i ddioddefwyr yn gofyn a allai siarad â rhywun ynghylch “cam-drin rhywiol cyfredol”. Ymatebodd aelod o’r staff yn ofalus ac ymhen ychydig daeth yn amlwg mai dim ond 16 oed oedd y fenyw. Gyda’r sôn am gam-drin ‘cyfredol’ yn peri gofid arbennig, anogodd rheolwr y gwasanaeth y ferch i ffonio i mewn ac ymhen ychydig i gwrdd yn bersonol.

Datgelodd y ferch a gyflwynodd ei hun fel Rebecca ei bod yn cael ei cham-drin yn rhywiol gan ei thad mabwysiadol. Er ei bod wedi symud i ffwrdd o adref a gyda gwarchodwr, roedd potensial i'r gamdriniaeth ddigwydd eto. Wedi llawer o gyfathrebu a meithrin perthynas, cytunodd Rebecca i gysylltu gyda gweithiwr cymdeithasol plant a phenderfynu adrodd am y drosedd i'r heddlu. Gan ei bod wedi adrodd am y drosedd, gallai'r heddlu sefydlu mesurau diogelu i’w cadw'n ddiogel. Mae nawr yn teimlo bod ganddi rwydwaith cefnogaeth ac mae’n falch iddi benderfynu cysylltu â’r gwasanaeth. Mae’n ymgysylltu gyda gwasanaeth Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) i fynd â’r achos i'r llys.

## Stori Natasha



Gadawodd Natasha rywfaint o’i heiddo ar y stryd am foment wrth iddi symud tŷ, a dyma pryd y gwnaeth y troseddwr ddwyn dau o’i bagiau. Ymysg y nwyddau a gafodd eu dwyn roedd gliniadur Natasha ac eitemau o werth sentimental, yn cynnwys llinyn paderau ei diweddar fam. Fe welodd cymydog Natasha y drosedd a’i adrodd i'r heddlu. Cafodd y troseddwr ei arestio a derbyn dedfryd gymunedol.

Roedd y troseddwr eisiau gwneud iawn, ac felly fe argymhellwyd proses cyfiawnder adferol. Roedd Natasha yn dal wedi ei phoeni gan y drosedd, ac nid oedd eisiau cwrdd â’r troseddwr, ond cytunodd i dderbyn llythyr adferol ganddo. Yna fe weithiodd y troseddwr yn agos gyda gweithiwr cymorth ac fe’i hanogwyd i geisio adfer yr eiddo yr oedd wedi ei ddwyn. Yn raddol fe ddaeth o hyd i rai o eitemau'r dioddefwr, yn cynnwys y llinyn paderau, ac fe ysgrifennodd lythyr at y dioddefwr ble'r esboniodd sut a pham yr oedd wedi dwyn yr eitemau.

Derbyniodd Natasha’r llythyr a gofyn i'r swyddog ddweud wrth y troseddwr ei bod yn maddau iddo ac yn diolch iddo am gael ei heiddo yn ôl. Nid yw'r troseddwr wedi aildroseddu yn y flwyddyn ers iddo ymgysylltu gyntaf gyda chyfiawnder adferol, sef y cyfnod hiraf (ar wahân i amser a dreuliodd yn y ddalfa) ble nad yw wedi troseddu yn ei fywyd fel oedolyn.

# Proses y llysoedd

## Taith dioddefwr

Gall mynd i'r llys fod yn frawychus. Gall treialon troseddol fod yn gymhleth a gallant barhau am fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd wedi i drosedd ddigwydd.

Os ceir troseddwr yn euog, efallai y bydd dioddefwyr eisiau dweud wrth y barnwr am effaith y drosedd arnynt.

Bydd nifer o ddioddefwyr yn fregus neu wedi eu dychryn, ac angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn rhoi eu tystiolaeth gorau. Rydym hefyd yn cydnabod bod dioddefwyr yn mynd trwy'r llysoedd teulu a sifil ar yr un pryd â'r broses llys troseddol. Rydym eisiau lleihau effaith mynd i'r llys ar ddioddefwyr trwy wneud gwelliannau i'r gefnogaeth sydd ar gael, yn ogystal ag ymateb i'w hanghenion ymarferol.

### Beth sy'n digwydd yn ystod y cam hwn?

Pan fydd dioddefwr yn rhoi tystiolaeth fel tyst, dylid ei asesu i weld os fydd angen cefnogaeth arno i gyflwyno ei dystiolaeth gorau. Dylai allai ymweld â'r llys o flaen llaw cyn yr achos i gyfarwyddo ei hun gyda'r adeilad ac ystafell y llys.

Dylid hysbysu dioddefwyr o ddyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawiad troseddol yn eu hachos. Ble fo'n bosibl, dylid rhoi dioddefwyr i eistedd mewn ardal ar wahân i'r sawl a amheuir a'i deulu a ffrindiau.

Os ceir y diffynnydd yn euog, mae gan ddioddefwr hawl i ddweud os hoffai gael ei Ddatganiad Personol y Dioddefwr (VPS) wedi ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw'n recordiad) yn y llys. Bydd yn ôl doethineb y llys os bydd yn caniatáu i hyn ddigwydd.

## Beth yw'r heriau?

### System llysoedd cymhleth heb fawr o wybodaeth

Yn 2016, amlygodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y ffaith er bod y system cyfiawnder yn dibynnu ar ddioddefwyr a thystion yn cyflwyno tystiolaeth, na fyddai dros eu hanner yn fodlon gwneud hynny eto.[37]

Mae sut fyddwn ni'n cyfathrebu gyda dioddefwyr yn allweddol ac mae angen bod yn fwy sensitif i amgylchiadau dioddefwyr. Gall fod diffyg gwybodaeth ar sut mae achos yn symud yn ei flaen, sut mae system y llysoedd yn gweithio a beth a ddisgwylir gan ddioddefwyr trwy broses y llysoedd. Mae'r VPS yn hawl allweddol i ddioddefwyr, ond nid yw dioddefwyr yn cael cyfle i ddarllen eu VPS yn y llys bob tro, ac nid yw'r broses i wneud hynny yn cael ei esbonio'n llawn bob tro.

### Gall ymarferoldeb mynd i'r llys fod yn anodd

Gall dioddefwyr fod yn aros yn hir i'w hachos fynd i'r llys a gall treialon fod yn faith. Mae heriau ymarferol i ddioddefwyr i fynd i'r llys hefyd, fel rheoli gofal plant, cludiant a gwaith. Rhaid i farnwyr gydbwyso anghenion pob plaid yn yr achos i sicrhau treial teg, ac efallai na fydd yn gallu o amgylch gofynion dioddefwyr bob tro.

### Gall awyrgylch y llys fod yn heriol

Mae gan rai llysoedd fynediad ar wahân ar gyfer dioddefwyr a diffynyddion, yn ogystal ag ystafell aros benodol i ddioddefwyr, ond mae eraill yn cynnig llai o ddarpariaeth. Mae awyrgylch y llys yn arbennig o heriol i dystion ifanc a dioddefwyr gydag anghenion arbennig. Awgryma ymchwil fod tystion ifanc yn aml yn ofnus am roi tystiolaeth oherwydd natur ffurfiol y llys, diffyg dealltwriaeth o brosesau'r llys ac ofn wynebu'r cyhuddedig.[38] Fe wyddom fod nifer o ddioddefwyr yn dod i'r llys yn gorfod treulio gormod o amser mewn ardaloedd aros anghyfeillgar cyn rhoi tystiolaeth.[39]

**Hyfforddiant Arbenigol i Eiriolwyr**

Mae Eiriolaeth Coleg Neuaddau'r Frawdlys (ICCA) wedi datblygu hyfforddiant arbenigol ar gyfer pob eiriolwr sy'n cwestiynu tystion mewn achosion o natur rywiol ddifrifol yn ymwneud ag oedolion bregus a phlant. Lansiwyd y cwrs 'Eiriolaeth a'r Bregus' ym Medi 2017.

Mae'r cwrs yn cwmpasu amrywiaeth o sgiliau mae angen i eiriolwyr fabwysiadu i sicrhau nad yw tyst bregus yn teimlo wedi ei lethu neu dan bwysau, er mwyn gallu rhoi ei dystiolaeth gorau i'r llys.

Mae'r cwrs yn helpu eiriolwyr i ddatblygu iaith briodol pan fyddant yn croesholi tystion ac yn sicrhau bod gan eiriolwyr ddealltwriaeth eang o gyfraith achos presennol, mesurau arbennig a defnydd o ganolwyr, er mwyn i dystion bregus allu cymryd rhan yn llawn ym mhroses yr achos. Mae hyfforddiant wedi ei gydnabod a'i werthfawrogi gan arbenigwyr perthnasol sy'n gweithio i gefnogi hawliau dioddefwyr a gyda sefydliadau fel yr NSPCC.

Mae'r rhaglen hyfforddi yn cyflawni'r ymroddiad maniffesto: "Bydd eiriolwyr a ariennir yn gyhoeddus yn derbyn hyfforddiant arbenigol ar ddelio gyda dioddefwyr cyn mynd i'r afael â throseddau rhyw difrifol" ac yn mynd tu hwnt i'r ymroddiad hwnnw. Mae hyfforddiant ar gael i bob eiriolydd, nid y rhai sy'n gweithio ar achosion a ariennir yn gyhoeddus yn unig.

### Nid yw anghenion arbenigol yn cael eu cydnabod bob tro

Mae gan ddioddefwyr fynediad at amrediad eang o fesurau arbennig i'w helpu i gyflwyno eu tystiolaeth gorau yn y llys. Fodd bynnag, nid yw'n glir os yw pawb sy'n gymwys yn cael ei adnabod gan yr asiantaethau perthnasol. Yn ogystal, mae rhai dioddefwyr yn cael eu hannog i beidio derbyn therapi cyn yr achos rhag ofn y bydd yn niweidio achos yr erlyniad, a gall dioddefwyr fod ofn yr effaith y bydd gwybodaeth gyhoeddus am eu hachos yn ei gael ar eu bywydau preifat.

## I daclo'r heriau hyn, byddwn yn:

### Gwneud amgylchedd y llys yn fwy caredig i ddioddefwyr

**Gwella amgylchedd y llys.** Rydym wedi ymgynghori ar y strategaeth yn y dyfodol ar gyfer diwygio ystâd y llysoedd a thribiwnlysoedd a bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) yn cyhoeddi ymateb yn hwyrach eleni. Ynghyd â hyn, byddwn yn cyhoeddi Canllaw Cynllunio newydd sy'n darparu'r safonau ar gyfer ailwampio ac ailddatblygu adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd presennol a photensial yn y dyfodol. Mae hygyrchedd yn egwyddor allweddol yn y canllaw newydd a bydd yn egluro fod mynedfeydd a mannau aros ar wahân i ddioddefwyr a thystion yn ofyniad ar gyfer pob adeilad lle bydd achosion troseddol a theuluol yn cael eu clywed. Rydym wedi cyflwyno ystafelloedd aros enghreifftiol ar bum safle yng Nghymru a Lloegr i sicrhau dioddefwyr os byddant yn mynychu'r llys, na fyddant yn dod ar draws y diffynnydd, na'u cymdeithion, tu allan i'r llys. Byddwn yn parhau i weithio i ddarparu ardaloedd aros cyfforddus, diogel a charedig i blant.

### Symleiddio rhyngweithio gyda dioddefwyr a gwella gwybodaeth

**Moderneiddio a digideiddio ein llysoedd.** Byddwn yn creu system ddigidol a rennir ar gyfer yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol a fydd yn dal gwybodaeth achos, gan alluogi cyfathrebiad haws a mwy cyson gyda dioddefwyr a thystion. Fe fydd yna un wedd o gynnydd achos, ac un cofnod o anghenion a dewisiadau dioddefwyr a thystion. Bydd gan ddioddefwyr fynediad uniongyrchol i'r llwyfan hwn i allu gweld a chael eu hysbysu am gynnydd ar eu hachos.

**Cyflwyno llais newydd ar gyfer cyfathrebiadau ysgrifenedig a llafar yn y llys.** Bydd cyfathrebu yn seiliedig ar egwyddorion gwrando, esbonio a thywys i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth gyson a hygyrch. Rydym hefyd yn cyflwyno system adborth newydd i glywed yn uniongyrchol gan ddioddefwyr a thystion ac i ddeall ble mae angen gwelliannau pellach.

**Cofnodi a monitro pryd y gwneir Datganiadau Personol y Dioddefwr.** Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei phasio ymlaen i'r dioddefwyr a gall helpu dioddefwyr ddeall sut y defnyddiwyd eu VPS a'u sicrhau bod eu profiad wedi cael ystyriaeth yn y llys.

### Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr gydag anghenion arbenigol

**Defnyddio cyswllt fideo i alluogi dioddefwr bregus i ddarparu tystiolaeth i ffwrdd o'r diffynnydd.** Mae yna bellach dros 2,000 o ddolenni fideo gweithredol, yn cynnwys dolenni tystion mewn llysoedd ynadon a'r Goron yng Nghymru a Lloegr. Mae yna hefyd ddolenni o bell ym mhob rhanbarth llysoedd, yn galluogi dioddefwyr i roi tystiolaeth ar adeg ac mewn lleoliad sy'n addas iddynt, i ffwrdd o'r diffynnydd ac yn gynyddol i ffwrdd o'r llys yn gyfan gwbl. Rydym hefyd yn datblygu protocol newydd ar gyfer safleoedd cyswllt fideo o bell a fydd yn cynnwys canllawiau ar wneud mwy o'r cyfleusterau yn garedig i blant.

**Cyflwyno croesholi wedi ei recordio o flaen llaw ar gyfer tystion bregus, a'i brofi ar gyfer dioddefwyr troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth fodern, mewn canolfannau Llys y Goron yng Nghymru a Lloegr.** Cafodd croesholi wedi ei recordio o flaen llaw ei gyflwyno'n wreiddiol o Ragfyr 2013 yng nghanolfannau Llys y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston upon Thames ar gyfer tystion oedd yn blant dan 16 oed, neu dystion bregus oherwydd anabledd corfforol neu feddyliol. Canfu gwerthusiad o'r broses yn y llysoedd peilot yn 2016 nifer o fanteision i dystion, yn ogystal â chynnydd yn y nifer i bledion euog cynnar a lleihad yn y nifer o dreialon yn 'torri'. Er mae'n bosibl y gellir priodoli rhywfaint o'r gwahaniaeth yma i arferion recordio yn y peilot. Mae treial yn 'torri' os, ar ddiwrnod y treial, mae'r diffynnydd yn cynnig pledion derbyniol neu os nad yw'r erlyniad yn cynnig tystiolaeth; does dim angen rhagor o amser ar gyfer yr achos, ond mae'r amser a neilltuwyd ar gyfer y llys wedi ei wastraffu.[40]

**Adolygu canllaw i godi ymwybyddiaeth o'r gallu i ymgeisio am gyfyngiadau adrodd ar gyfer tystion sydd angen bod yn ddienw neu sydd angen amddiffyniad.** Mae gan lys y pŵer i wahardd cyhoeddi deunydd yn datgelu pwy yw tyst sy'n oedolyn mewn achosion troseddol (ar wahân i'r cyhuddedig) os yw'r llys yn credu y byddai ansawdd tystiolaeth y tyst neu ei gydweithrediad gyda'r achos yn dirywio oherwydd ofn datgeliad cyhoeddus. Gallai hyn annog dioddefwyr bregus i ddwyn eu hachos ymlaen.

**Lansio canllaw newydd ar therapi cyn-treial** i leihau'r dehongliad ymysg dioddefwyr, therapyddion ac erlynyddion y bydd yn niweidio achos yr erlyniad. Rydym hefyd yn lansio pecyn newydd ar gyfer therapyddion ac erlynyddion ar y gefnogaeth y bydd unigolyn yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl ei angen.

**Diogelu tystion sy'n blant trwy Brotocol Tystion Ifanc wedi ei ddiweddaru.** Mae hyn yn sefydlu amserlen fyrrach ar gyfer yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r llysoedd pan fydd tyst dan 10 oed yn cyflwyno tystiolaeth, gan leihau faint o amser fydd plentyn mewn cysylltiad gyda'r system cyfiawnder, a lleihau'r posibiliad y bydd yn anghofio tystiolaeth allweddol. Mae hyn yn dilyn adolygiad ar y cyd o'r protocol gan HMCTS, y CPS a'r heddlu.

**Gwella mynediad at fesurau arbennig.** Gall cymeradwyaeth gynnar i fesurau arbennig helpu sicrhau dioddefwr a'u paratoi ar gyfer y llys. Byddwn yn adeiladu ar waith parhaus i gefnogi dioddefwyr ymosodiadau asid bregus i annog erlynyddion i wneud ceisiadau mesurau arbennig ar gyfer tystion cymwys cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd wedi datblygu protocol ar gyfer treialon sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned fyddar i sicrhau bod mesurau cefnogaeth priodol ar waith. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys treialon ble mae dioddefwyr a thystion angen dulliau cyfathrebu amgen a mwyhaol i roi tystiolaeth.

**Cofnodi a monitro ceisiadau am fesurau arbennig a hawliau uwch,** er mwyn i ni allu sicrhau bod pawb sydd â hawl i gefnogaeth yn gallu gwneud cais i'r llys ar gyfer pa bynnag fesurau fydd yn eu galluogi i roi eu tystiolaeth gorau.

### Darparu gwell cefnogaeth gydag ymarferoldeb mynd i'r llys

Mae rhestru yn swyddogaeth farnwrol, a ble fo'n bosibl, yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol presennol, fe ddarperir dyddiad treial sefydlog ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thystion bregus ac wedi ei dychryn (yn cynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu i droseddau rhywiol ac achosion trais domestig) a thystion dan 18 oed i leihau'r straen o fynychu'r llys.

**Rhyddhau amser yn y llys ynadon:** Mae troseddau ble na ellir nodi dioddefwr, fel troseddau traffig a theithio ar drên heb docyn, eisoes yn cael eu datrys y tu allan i'r llys a phenderfynu arnynt ar y papurau gan un ustus gyda chymorth cynghorydd cyfreithiol. Byddwn yn sicrhau bod amser y llysoedd ynadon yn cael ei ganolbwyntio ar yr achosion mwy difrifol a chymhleth, yn ymwneud â dioddefwyr a thystion bregus. Mae achosion trais difrifol yn mynd trwy system y llysoedd yn gynt. Ers diwedd 2014 a Mawrth 2018 mae achosion sy'n aros ar gyfer troseddau trais yn erbyn yr unigolyn wedi lleihau o 38%.[41] Mae prydlondeb wedi gwella hefyd ar gyfer achosion llofruddiaeth, ble mae'r amser o'r gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon hyd at gwblhau yn Llys y Goron i lawr 22% ers 2012 (wedi gostwng o 308 niwrnod yn 2012 i 239 niwrnod yn 2017).

**Datblygu model newydd ar gyfer cefnogaeth yn y llys yn gysylltiedig i raglen diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS).** Byddwn yn sicrhau bod staff y llys gyda dioddefwyr dan eu gofal yn cael yr hyfforddiant cywir a bod dioddefwyr yn cael y gefnogaeth maent angen trwy brofiad o'r llys.

### Amddiffyniadau ar gael ar gyfer tystion bregus yn y llys

Gall mesurau arbennig helpu lleihau'r straen o fynychu'r llys i dystion bregus ac wedi dychryn a'u helpu i roi eu tystiolaeth gorau.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys: dolenni fideo byw, prif dystiolaeth wedi ei recordio ar fideo a sgriniau o amgylch y blwch tystio. Gall tystion hefyd roi tystiolaeth gyda chymorth canolwr (arbenigwr cyfathrebu), rhoi tystiolaeth yn breifat, a gofyn i farnwyr a bargyfreithwyr dynnu eu gwallt gosod a gynau. Mae mesurau arbennig yn berthnasol i dystion yr amddiffyn a'r erlyniad ond nid i'r diffynnydd ac maent yn destun doethineb y llys.

Os gallai ansawdd y dystiolaeth gan dyst bregus sy'n oedolyn ddirywio oherwydd ofn neu drallod oherwydd y posibiliad o adnabod yn gyhoeddus, gall y llysoedd troseddol gyflwyno gwaharddiadau ar adrodd. Mae hyn yn rhoi amddiffyniad am oes i'r tyst rhag cael ei adnabod yn y wasg, gan wahardd cyhoeddi manylion adnabod fel enwau, cyfeiriadau neu luniau. Rhaid i'r llys fod yn fodlon fod y cyfyngiad hwn yn debygol o wella cydweithrediad ac ansawdd tystiolaeth y tyst. Ceir cyfyngiadau adrodd awtomatig ar gyfer dioddefwyr troseddau rhywiol.

| Crynodeb o faterion allweddol | Gweithred |
|---|---|
| **Gwneud amgylchedd y llys yn fwy caredig i ddioddefwyr** | |
| • Mae gan rai llysoedd fynediad ar wahân ar gyfer dioddefwyr a diffynyddion, ac ystafell aros benodol i ddioddefwyr; mae eraill yn cynnig llai o ddarpariaeth.<br>• Gall dioddefwyr ifanc a thystion gydag anghenion arbennig gael yr awyrgylch yn un heriol. | • Cyhoeddi a gweithredu canllaw dylunio ystadau'r llysoedd.<br>• Cyflwyno ystafelloedd aros model mewn pum safle. |
| **Symleiddio rhyngweithio gyda dioddefwyr a gwella gwybodaeth** | |
| • Gall cyfathrebu gyda dioddefwyr fod yn brin o empathi a dealltwriaeth.<br>• Gall fod diffyg gwybodaeth ar sut mae achos yn symud yn ei flaen, sut mae system y llysoedd yn gweithio a beth a ddisgwylir gan ddioddefwyr trwy broses y llysoedd.<br>• Nid oes ffordd hawdd i ddioddefwyr roi adborth ar eu profiad. | • Datblygu llwyfan newydd digidol i wella rhannu gwybodaeth mewn ffordd gyson.<br>• Cyflwyno llais newydd ar gyfer cyfathrebu gyda dioddefwyr.<br>• Cyflwyno system adborth newydd ar gyfer dioddefwyr.<br>• Cofnodi a monitro pryd y gwneir Datganiadau Personol y Dioddefwr. |
| **Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr gydag anghenion arbenigol** | |
| • Nid yw'n amlwg a yw pawb sy'n gymwys ar gyfer Mesurau Arbennig yn cael eu nodi.<br>• Mae rhai dioddefwyr wedi eu hannog i beidio cael therapi cyn-treial.<br>• Gall dioddefwyr fod yn ofnus am effaith gwybodaeth gyhoeddus o'r achos. | • Defnyddio cyswllt fideo i alluogi dioddefwr bregus i ddarparu tystiolaeth i ffwrdd o'r diffynnydd a chyflwyno protocol newydd.<br>• Cyflwyno croesholi wedi ei recordio o dystion bregus i Lysoedd y Goron.<br>• Adolygu canllaw i godi ymwybyddiaeth o'r gallu i ymgeisio am gyfyngiadau adrodd ar gyfer tystion sydd angen bod yn ddienw neu sydd angen amddiffyniad.<br>• Lansio pecyn cymorth therapi cyn treial.<br>• Lansio Protocol Tystion Ifanc wedi ei ddiweddaru.<br>• Codi ymwybyddiaeth, defnydd o ac annog ceisiadau cynnar am fesurau arbennig.<br>• Ymestyn protocol gan sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei le ar gyfer tystion byddar.<br>• Cofnodi a monitro ceisiadau am fesurau arbennig a hawliau uwch. |
| **Darparu gwell cefnogaeth gydag ymarferoldeb mynd i'r llys** | |
| • Gall dioddefwyr fod yn aros yn hir i'w hachos fynd i'r llys a gall treialon fod yn faith.<br>• Mae yna heriau ymarferol o fynd i'r llys, yn cynnwys gofal plant, cludiant a gwaith. | • Parhau i ryddhau amser y llys ynadon trwy ddelio â throseddau ble na ellir nodi dioddefwr tu allan i wrandawiadau llys.<br>• Datblygu model newydd ar gyfer cefnogaeth yn y llys i sicrhau bod gan staff y llys yr hyfforddiant priodol. |

### Rhai o'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r Cod y Dioddefwyr

- Egluro y dylid gwneud ceisiadau cynnar am fesurau arbennig ar gyfer tystion pryd bynnag fo'n bosibl.
- Adolygu beth mae'r Cod yn ei ddweud am hawl dioddefwyr i fynediad at therapi cyn-treial.
- Adolygu hawliau uwch.
- Egluro rôl y Gwasanaeth Tystion yn y Llys wrth ddarparu ymweliadau i'r llys cyn y treial a chefnogaeth.
- Adolygu'r broses i ddioddefwyr dderbyn gwybodaeth ar fesurau arbennig sydd ar gael, rhannu eu dewisiadau, a chael gwybod am ganlyniad unrhyw gais.
- Darparu gwybodaeth fwy eglur i ddioddefwyr ar beth i'w ddisgwyl yn y llys a sut i gyrchu cymorth ymarferol.
- Adolygu'r broses ar gyfer hysbysu dioddefwyr am eu defnydd o'u VPS yn ystod y broses ddedfrydu.
- Addasu'r Cod i ystyried cwynion newydd a system adborth.

## Stori Kwame



Roedd Kwame yn ddioddefwr aflonyddu. Pan ddaeth i'r llys cafodd ei gefnogi gan y Gwasanaeth Tystion yn y Llys. Dywedodd bod y croeso cyfeillgar cynnes wedi helpu lleihau'r straen o wynebu'r sawl a fu'n ei fygwth ac aflonyddu ef a'i deulu.

O'r cychwyn, teimlai'n ddiogel gan wybod fod proses y llys yn le diogel. Roedd yn ddiolchgar am y cyngor, cefnogaeth a chroeso a dderbyniodd, gan ddweud bod hyn yn rhywbeth annisgwyl yn ystod cyfnod anodd.

## Stori Sue



Roedd Sue yn ddioddefwr cam-drin domestig ac mae ganddi anabledd. Ar un achlysur, fe wnaeth ei chyn bartner ei tharo a rhoi ei ddwylo o amgylch ei gwddf. Credai y byddai'n achosi niwed iddi pe byddai'n chwilio am gymorth. Ffoniodd ei chymdogion yr heddlu a chafodd ei chyn bartner ei gyhuddo. Aeth yr achos i lys troseddol.

Cysylltodd Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) gyda Sue a sicrhau ei bod yn cael gwybod beth oedd statws yr achos, a bod ei diogelwch yn flaenoriaeth. Rhoddwyd mesurau arbennig i Sue oedd yn golygu y gallai roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo. Arhosodd yr IDVA yn y llys nes bod yr achos wedi ei gwblhau i sicrhau bod Sue yn cael gwybod beth oedd y canlyniad cyn gynted â phosibl. Roedd yr IDVA yn gyswllt gyda'r heddlu/CPS i sicrhau yr ymgeisiwyd am orchymyn ataliol a bod yr wybodaeth yn ddigon cadarn a manwl i ddiogelu Sue yn effeithiol.

Mynychodd yr IDVA y dedfrydu a gweithio gyda phartneriaid y llys i sicrhau bod y broses yn parhau i gael ei hadolygu. Teimlai Sue wedi ei chefnogi ar bob cam o'r broses a theimlai'n fwy diogel o ganlyniad i ymgysylltu â'r gwasanaeth.

## Stori Hiten



Mae Hiten yn oroeswr cam-drin plentyn, oedd yn cynnwys cael ei dreisio gan aelod o'r teulu yn 12 oed. Achosodd y profiad hwn iddo brofi ing a gorbryder difrifol fel oedolyn. Roedd yn amser hir cyn iddo gael yr hyder i ddweud wrth yr awdurdodau beth a ddigwyddodd iddo'r holl flynyddoedd yn ôl. O ganlyniad i adrodd y troseddau, cafodd y cyflawnwr ei ddwyn gerbron y llys. Aseswyd Hiten gan Ganolwr Cofrestredig a wnaeth argymhellion i'r llys ynghylch ei anghenion cyfathrebu. Cyflwynodd dystiolaeth yn y llys tu ôl i sgriniau gyda Chanolwr Cofrestredig yn eistedd wrth ei ochr yn y safle tystio.

Aeth y Canolwr Cofrestredig i ymweld â'r llys gydag ef cyn y treial ac yn ystod y treial fe hwylusodd gyfathrebu rhyngddo a'r llys, gan gynghori'r llys ar sut i symleiddio cwestiynau i fodloni ei anghenion. Helpodd y Canolwr Cofrestredig Hiten i beidio cynhyrfu ac i gyflwyno ei dystiolaeth gorau. Cafwyd cyflawnwr y cam-drin yn euog gan y rheithgor a'i anfon i'r carchar am 14 o flynyddoedd. Fe wylodd Hiten yn y llys pan draddodwyd y dyfarniad, ond mae'n teimlo y gall nawr symud ymlaen â'i fywyd gan wybod nad yw fyth yn rhy hwyr i ddwyn rhywun i gyfiawnder.

# Wedi'r llys

## Taith dioddefwr

Beth bynnag yw canlyniad treial, dylid darparu gwybodaeth amserol, gywir i ddioddefwyr ynghylch eu hachos a'r gefnogaeth mae ganddynt hawl iddi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn deall penderfyniad y llys, y goblygiadau iddynt, ac i'r troseddwr. Mae hefyd yn golygu y dylid diweddaru dioddefwyr am ddatblygiadau achosion yn y dyfodol, megis os yw'r troseddwr yn ceisio apêl, neu os fydd troseddwr yn gymwys i gael ei ryddhau o'r carchar. Rydym eisiau gwneud y system mor dryloyw â phosibl, a sicrhau bod gan ddioddefwyr lais yn y broses.

## Beth sy'n digwydd yn ystod y cam hwn?

Dylid hysbysu dioddefwyr gan yr Uned Gofal Tystion am ganlyniad y treial, yn cynnwys, ble fo ar gael, crynodeb o'r penderfyniad. Gallant hefyd roi gwybod i ddioddefwyr am y math o ddedfryd y gellir ei chyflwyno, a'r canllawiau mae'n rhaid i'r llys ystyried wrth wneud penderfyniad. Os yw dedfrydau a basiwyd yn Llys y Goron yn ymddangos i fod yn rhy drugarog, gall unrhyw un ofyn i'r Atwrnai Cyffredinol ei adolygu dan y Cynllun Dedfryd Rhy Drugarog (ULS). Mae gan yr Atwrnai Cyffredinol y pŵer i gyfeirio achosion penodol at y Llys Apêl am adolygiad. Dylid hysbysu dioddefwyr gan Unedau Gofal Tystion os yw'r troseddwr yn ceisio apêl, a phryd a ble fydd yr apêl yn cael ei gynnal.

Cynigir y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS) i ddioddefwyr troseddau treisgar a rhywiol ble mae'r troseddwr yn derbyn dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy. Os bydd dioddefwyr yn optio mewn, byddant yn derbyn gwybodaeth am gyfnodau allweddol dedfryd y troseddwr gan Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys os bydd troseddwr yn symud i amodau mwy agored, os yw'n gymwys i'w ryddhau, ac os bydd gwrandawiad Bwrdd Parôl yn cael ei gynnal. Rhaid i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr fod yn rhagweithiol o ran cysylltu â dioddefwyr, gan fynd ar drywydd llythyrau cychwynnol gyda galwad ffôn a chyfarfod wyneb yn wyneb fel fo'n briodol.

Gall dioddefwyr sy'n optio i mewn roi eu barnau ar amodau trwyddedu, a byddant yn cael eu hysbysu am unrhyw amodau trwyddedu sy'n berthnasol iddynt. Os yw carcharor yn gymwys ar gyfer parôl, gall y dioddefwr wneud neu ddiweddaru ei VPS a fydd yn cael ei anfon at y Bwrdd Parôl, ac os bydd gwrandawiad llafar, gall dioddefwyr fynychu a chyflwyno'r datganiad hwn.

Roedd achos Worboys yn dangos yn glir bod yn rhaid i ni wella sut ydym yn cyfathrebu gyda dioddefwyr. Ers hynny, rydym wedi ymroi i gynyddu tryloywder y broses parôl. Un cam a weithredwyd ar unwaith oedd newid y rheolau i ganiatáu i'r Bwrdd Parôl esbonio ei benderfyniadau i ddioddefwyr, y cyfryngau a'r cyhoedd. Ers y newid hwn, mae'r Bwrdd Parôl wedi derbyn dros 850 o geisiadau am benderfyniadau diannod. Mae yna waith yn parhau i adolygu a gwella'r system parôl, gyda ffocws penodol ar os oes cwmpas i wneud gwelliannau pellach ar gyfer dioddefwyr yn mynd trwy'r broses. Rydym wedi ymgynghori ar gynigion i greu mecanwaith ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Parôl i gael eu hailystyried dan rai amgylchiadau ac rydym hefyd wedi cyflawni adolygiad o holl reolau'r Bwrdd Parôl. Gall dioddefwyr troseddau rhywiol neu dreisgar sydd wedi eu cyflawni gan droseddwyr gydag anhwylder meddwl a gedwir mewn ysbyty, fel y dynodir mewn deddfwriaeth, hefyd ddewis bod ar y VCS a byddant yn derbyn gwybodaeth megis pryd fydd y claf yn cael ei ystyried ar gyfer ei ryddhau. Gallant hefyd gyflwyno sylwadau ynghylch ar amodau a atodir i ryddhad y troseddwr, fel atal y troseddwr rhag cysylltu â'r dioddefwr.

## Beth yw'r heriau?

### Nid yw canlyniadau'r llys yn cael eu hesbonio mor glir ag y gellid

Nid yw pob dioddefwr yn cael gwybod am ganlyniad ei achos a, phan fydd, gellid gwella ansawdd yr esboniad. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw dioddefwyr yn deall goblygiadau dedfryd bob tro, fel am ba hyd fydd troseddwr yn y carchar. Yn ogystal, ble mae achos wedi arwain at ryddfarniad, rhaid gwella hysbysiadau i ddioddefwyr ynghylch beth mae hyn yn ei olygu a'r opsiynau ar gael iddynt. Nid yw dioddefwyr yn ymwybodol ar bob adeg o'r cynllun Dedfryd Rhy Drugarog.

### Nid yw dioddefwyr yn cael eu diweddaru am y broses parôl ac nid yw eu rôl yn y broses yn cael ei esbonio'n glir

Yn dilyn achos Worboys, fe wyddom fod angen i ni wella cyfathrebu gyda dioddefwyr yn ystod y broses parôl.[42] Canfu ein hadolygiad bod dioddefwyr[43] yn ddryslyd ynghylch diben y VPS mewn cyd-destun parôl, yn cynnwys sut i gyflwyno un a sut mae'n cael ei ystyried yn ystod y broses amodau trwyddedu. Fe wyddom fod gan rai dioddefwyr bryderon ynghylch datgelu VPS i'r troseddwr, ac y gallai hyn eu hatal rhag gwneud un.

Mae rhai dioddefwyr hefyd ddim yn credu y bydd eu VPS yn cael ei ystyried yn y broses parôl, ac maent eisiau iddi fod yn haws iddynt gyflwyno eu VPS mewn gwrandawiadau parôl. Dangosodd yr achos Worboys hefyd nad yw dioddefwyr yn cael gwybodaeth gywir, amserol bob tro ar sut i ymuno â'r VCS.

### Mae yna wahaniaeth yn y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr troseddwyr ag anhwylder meddyliol o gymharu â dioddefwyr eraill

Yn yr adroddiad diweddar, 'Hawliau a Phrofiadau Dioddefwyr Troseddwyr ag Anhwylder Meddwl', mynegodd y Comisiynydd Dioddefwyr nifer o bryderon, yn cynnwys fod y dioddefwyr hyn yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth amrywiol o gymharu â dioddefwyr eraill sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.[44]

## I daclo'r heriau hyn, byddwn yn:

### Sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o ac yn deall penderfyniad y llys

**Gwella esboniadau o benderfyniadau'r llys fel eu bod yn glir a hawdd i'w deall.** Mae hyn yn cynnwys os oes rhyddfarniad. Os rhoddir dedfryd o garchar i'r troseddwr, yna mae angen i'r dioddefwr wybod beth mae'r ddedfryd yn ei olygu a phryd mae'r troseddwr yn debygol o gael ei ryddhau o'r carchar.

**Cadw'r cynllun Dedfryd Rhy Drugarog dan adolygiad** i sicrhau y gall dioddefwyr neu'r cyhoedd ofyn i'r Llys Apêl ailystyried dedfrydau penodol nad ydynt yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Mae'r cynllun yn darparu cyfle i ddioddefwyr, ynghyd â'r cyhoedd, i herio hyd dedfryd. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a sut mae'r broses yn gweithio i sicrhau bod pob dioddefwr yn ymwybodol o'r cyfle hwn. Rydym wedi ehangu'r cynllun i gynnwys troseddau terfysgol yn y cwmpas, ac yn ystyried estyniad pellach, o bosibl ar gyfer troseddau aflonyddu, rhywiol a delweddau anweddus atodol.

**Adolygu cefnogaeth i ddioddefwyr wedi rhyddfarn, yn cynnwys atgyfeiriadau tuag at gefnogaeth yn dilyn treial.** Gan adeiladu ar Safonau Cefnogaeth Cenedlaethol presennol sydd ar waith yn dilyn rhyddfarn ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth mewn achosion dynladdiad, byddwn yn sicrhau bod teuluoedd yn cael cyfle i drafod materion yn deillio o'r treial ac unrhyw ymchwiliad neu erlyniad yn y dyfodol. Byddwn yn addasu Cod y Dioddefwyr i esbonio beth sy'n digwydd wedi rhyddfarn a hawliau dioddefwyr.

### Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu gyda dioddefwyr yn ystod y broses parôl

**Gwella'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.** Rydym yn gwella gwybodaeth am y Cynllun fel bod dioddefwyr yn deall y manteision a sut i ymuno. Byddwn yn gwneud y broses optio i mewn yn llawer haws. Gwyddom hefyd bod yn rhaid i gyfathrebu gyda dioddefwyr fod yn haws. Rydym yn profi dulliau newydd o hysbysu dioddefwyr o ddatblygiadau achosion, yn cynnwys cyfathrebiadau digidol i ddarparu mwy o ddewis i ddioddefwyr ar sut y cyfathrebir â nhw.

**Cyflwyno hyfforddiant diwygiedig ar gyfer Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO)** i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a sgiliau angenrheidiol i gefnogi dioddefwyr. Yn rhan o hyn, byddwn yn cyflwyno templed newydd ac yn hyfforddi VLOs i helpu dioddefwyr wrth roi eu barnau am ba amodau trwyddedu ddylai troseddwyr fod yn amodol iddynt wedi eu rhyddhau. Bydd yr ymagwedd newydd hefyd yn ei gwneud yn haws i olrhain ceisiadau dioddefwyr am amodau trwyddedu a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol.

**Caniatáu i fwy o ddioddefwyr ddarparu eu VPS mewn gwrandawiadau parôl.** Oni bai bod rheswm da fel arall, fel materion diogelwch neu ddiogeledd, byddwn yn tybio y gall dioddefwyr sydd eisiau gwneud hynny draddodi eu VPS, neu ei gael wedi ei draddodi ar eu rhan. Rydym yn cynnig cynnwys y dybiaeth fel hawl yn y Cod y Dioddefwyr.

Yn Hydref 2014, aeth Lighthouse Integrated Victim and Witness Care yn fyw, adran newydd sbon yng Nghwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf. Mae Lighthouse yn parhau i gynnig gwasanaeth uwch i ddioddefwyr bregus, wedi dychryn neu sy'n cael eu targedu'n gyson gan ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dioddefwyr troseddau difrifol.

Mae timau Lighthouse yn sicrhau bod pob dioddefwr yn derbyn y gefnogaeth a gwasanaeth penodol iddyn nhw yn lleol iddynt. Mae gan bob tîm Swyddogion Gofal Dioddefwyr a Thystion a phartneriaid amlasiantaethol yn yr un lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorwr Trais Domestig Annibynnol, Cynghorwr Trais Rhywiol Annibynnol a Chymorth i Ddioddefwyr. Maent yn gweithio gyda'r NPS i archwilio sut gellid cydleoli Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr gydag asiantaethau eraill o fewn eu hardal i ganiatáu ar gyfer mwy o gydweithrediad a gwell profiad i ddioddefwyr.

Mae'r holl achosion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth trwy'r heddlu ac yn cael eu neilltuo i Swyddog Gofal Dioddefwyr a Thystion (VWCO) a fydd yn aros gyda nhw trwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Bydd y VWCO yn cydlynu atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogaeth a allai fod o fudd ac yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gan ddioddefwyr.

**Archwilio a oes cwmpas i gyfyngu gwybodaeth mae'r troseddwr yn derbyn am gais dioddefwr ar gyfer amodau trwyddedu.** Byddwn hefyd yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu yn ystod cam cynnar o'u hawl i ofyn am beidio datgelu.

### Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr troseddwyr gydag anhwylder meddwl i'w helpu i ymdopi ac adfer

**Delio ag unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i hawliau i ddioddefwyr troseddwyr gydag anhwylder meddwl yn y Cod y Dioddefwyr newydd.** Yn benodol, byddwn yn archwilio os gallai Cod y Dioddefwyr ddarparu mwy o eglurder ar pam bod dioddefwyr troseddwyr anghyfyngedig yn derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol gan Reolwyr Ysbytai a pha wybodaeth ddylent dderbyn.

**Archwilio darparu sylwadau dedfrydau barnwyr i'r Tribiwnlys perthnasol** wrth iddynt ystyried rhyddhau claf cyfyngedig. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y tribiwnlys wybodaeth fwy manwl parthed y risgiau a gyflwynir gan glaf cyfyngedig, eglurder ar unrhyw nodweddion gwaethygol mynegai'r drosedd ac os yr ystyriwyd unrhyw droseddau eraill.

## Stori Sophie



Cafodd Sophie ei cham-drin yn rhywiol ar sawl achlysur gan ei hewythr pan oedd rhwng oddeutu pedair a deg oed.

O ganlyniad i'r gamdriniaeth, dioddefodd flynyddoedd o orbryder, euogrwydd ac ynysu cymdeithasol. Yn y treial gwreiddiol, plediodd y troseddwr yn euog i bob cyhuddiad a derbyn dedfryd o Orchymyn Cymunedol tair blynedd a phum mlynedd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw.

Teimlai Sophie bod ei hewythr wedi 'osgoi cosb', ac nad oedd ei dewrder wedi bod yn werth chweil. Cafodd y ddedfryd ei chyfeirio at Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol fel un a oedd yn rhy drugarog o bosibl ac, wedi adolygiad, cytunodd y Twrnai Cyffredinol gyda'r atgyfeiriad.

Cafodd yr achos wrandawiad arall yn y Llys Apêl fis yn unig wedi'r atgyfeiriad, ac fe gynyddodd y barnwr y ddedfryd i gyfanswm o bedair blynedd a chwe mis o garchar.

| Crynodeb o faterion allweddol | Gweithred |
|---|---|

## Sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o ac yn deall penderfyniad y llys

- Nid yw pob dioddefwr yn cael gwybod am ganlyniad ei achos a, phan fydd yn cael gwybod, gellid gwella ansawdd yr esboniad.
- Nid yw dioddefwyr yn deall beth mae'r ddedfryd yn ei olygu bob tro a'r goblygiadau.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth ymysg dioddefwyr o fodolaeth y Cynllun Dedfryd Rhy Drugarog a sut mae'r broses yn gweithio.
- Gellid gwella sut yr hysbysir dioddefwyr am beth mae rhyddfarn yn ei olygu a'u dewisiadau.

- Adolygu arweiniad a roddir i Unedau Gofal Tystion i wella ansawdd esboniadau am benderfyniadau'r llys i ddioddefwyr.
- Cadw cwmpas y Cynllun Dedfryd Rhy Drugarog dan adolygiad.
- Ystyried estyniad pellach i'r Cynllun Dedfryd Rhy Drugarog, yn arbennig ar gyfer rhai troseddau aflonyddu, rhywiol a delweddau anweddus atodol.
- Adolygu arweiniad a roddir i Unedau Gofal Tystion i wella atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogaeth yn dilyn y treial, yn cynnwys yn dilyn rhyddfarn.

## Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu gyda dioddefwyr yn ystod y broses parôl

- Mae dioddefwyr yn ddryslyd ynghylch diben Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) mewn cyd-destun parôl.
- Mae dioddefwyr yn poeni am y gofyniad i ddatgelu'r VPS i'r troseddwr, ac mewn rhai achosion mae hyn wedi atal dioddefwyr rhag gwneud VPS. Mae rhai dioddefwyr hefyd ddim yn credu y bydd eu VPS yn cael ei ystyried yn y broses parôl, ac maent eisiau iddi fod yn haws iddynt gyflwyno eu VPS mewn gwrandawiadau parôl.
- Nid yw dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth gywir, amserol bob tro ar sut i ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr. Nid yw dioddefwyr ar y cynllun bob tro'n derbyn gwybodaeth amserol, sensitif ar pryd fydd gwrandawiad parôl yn digwydd a'r goblygiadau.

- Gwella gwybodaeth am y VCS a gwneud y broses optio i mewn yn fwy syml.
- Archwilio sut i'w gwneud yn haws i olrhain gohebiaeth gyda dioddefwyr a chyflwyno gwahanol ffyrdd o hysbysu dioddefwyr.
- Cyflwyno hyfforddiant newydd ar gyfer VLOs, i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a sgiliau angenrheidiol i gefnogi dioddefwyr.
- Datblygu templed ar gyfer sylwadau am amodau trwyddedu yn gysylltiedig i'r dioddefwr.
- Symud i dybiaeth y gall dioddefwyr draddodi eu VPS mewn gwrandawiad parôl, oni bai bod rheswm da i'r gwrthwyneb.
- Archwilio cyfyngu'r wybodaeth mae'r troseddwr yn derbyn am y rhesymau dros geisiadau dioddefwr am amodau trwyddedu.

## Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu gyda dioddefwyr yn ystod y broses parôl

- Mae yna wahaniaeth yn y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr troseddwyr ag anhwylder meddyliol o gymharu â dioddefwyr eraill.

- Gwella'r prosesau ar gyfer rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr troseddwyr ag anhwylder meddwl a'r gefnogaeth a ddarperir.
- Darparu sylwadau dedfrydu barnwr treial i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

### Rhai o'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r Cod y Dioddefwyr

- Adolygu'r broses ar gyfer hysbysu dioddefwyr am ddedfryd y troseddwr a beth mae hyn yn ei olygu.
- Esbonio yn y Cod y Dioddefwyr beth yw hawliau dioddefwyr troseddwyr ag anhwylder meddwl ac archwilio yn rhan o'r adolygiad os oes angen gwelliannau pellach.
- Myfyrio ar waith i wella profiad dioddefwyr o'r broses parôl, yn cynnwys:
    - Darparu disgrifiad mwy cynhwysfawr o'r VPS a'i ddiben mewn cyd-destun parôl.
    - Cynnwys tybiaeth, oni bai bod yna reswm da fel arall, y bydd dioddefwyr sy'n ymgeisio i fynychu gwrandawiad parôl llafar i ddarllen eu VPS, neu gael rhywun i'w ddarllen ar eu rhan, yn gallu gwneud hynny.
    - Egluro rôl y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.
    - Egluro beth yw hawliau dioddefwyr wedi rhyddfarn.

# Ein dull

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth gyda dioddefwyr, grwpiau dioddefwyr a chynrychiolwyr, academyddion, gwasanaethau rheng flaen ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth ac ymchwil berthnasol. Mae wedi bod yn bwysig i ni siarad yn uniongyrchol gyda'r rhai sydd wedi cael profiad uniongyrchol o fod yn ddioddefwr, yn ogystal â'r rhai gydag arbenigedd ar y rheng flaen. Mae hyn wedi ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r anawsterau mae dioddefwyr yn wynebu ac wedi amlygu cymhlethdod ac amrywiaeth eu hanghenion.

Yn 2014 fe sefydlom y **Panel Dioddefwyr** i gynrychioli llais dioddefwyr wrth lunio polisi'r llywodraeth. Mae'r Panel yn cynghori a chynorthwyo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr troseddau. Mae wedi ei gadeirio gan y Gweinidog Dioddefwyr ac mae'r aelodau yn cynnwys rhai sydd â phrofiad o droseddau, academyddion blaenllaw ac arbenigwyr mewn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr. Mae aelodau wedi eu penodi i gynrychioli amrediad eang o sgiliau a phrofiad yn ymwneud â dioddefwyr. Mae'r Panel yn cwrdd yn chwarterol i drafod materion dioddefwyr ac i fod yn gyfaill beirniadol i ddatblygu polisi Llywodraeth. Er mwyn i'r Llywodraeth ddatblygu polisïau a diwygiadau effeithiol i ddioddefwyr, mae'n allweddol ein bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda dioddefwyr a'r bobl sy'n gweithio gyda dioddefwyr a'n bod yn ymroddedig i barhad y Panel. Byddwn yn parhau i ymgynghori gyda'r Panel ar unrhyw fater polisi yn ymwneud â dioddefwyr, yn cynnwys yr adolygiad o'r Cod y Dioddefwyr. Mae'r Panel wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

Yn ogystal â'r Panel, sefydlwyd **Grŵp Cynghori Dioddefwyr a Thystion** gennym yn 2017, grŵp llai i ddarparu cyngor a her arbenigol gan randdeiliaid allweddol yn cynrychioli dioddefwyr. Mae'r grŵp hwn wedi ffocysu'n bennaf ar bynciau yn ymwneud â'r Strategaeth Dioddefwyr. Mae aelodaeth yn cynnwys y Farwnes Newlove, y Comisiynydd ar gyfer Dioddefwyr a Thystion; y Fonesig Vera Baird DBE QC, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria, Claire Waxman, Comisiynydd Dioddefwyr Llundain; a Diana Fawcett, Prif Swyddog Cymorth i Ddioddefwyr. Mae'r grŵp yn cwrdd yn fisol a bydd yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad strategol ar faterion allweddol dioddefwyr i'w cynnwys yn y Strategaeth Dioddefwyr a'r ymgynghoriad i'r dyfodol.

Bu'r **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol** (CJB), sy'n gyfrifol am drosolwg o ddiwygiadau i'r system cyfiawnder troseddol ac wedi ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder gyda chynrychiolwyr o'r system cyfiawnder troseddol yn mynychu, yn cynnwys yr Ysgrifennydd Cartref a'r Arglwydd Ustus Leveson, yn ystyried y mater o gydymffurfiad â Chod y Dioddefwyr mewn manylder yn Ebrill 2018. Mae eu hargymhellion wedi hysbysu cyfeiriad y strategaeth ar y mater hwn.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda **Llywodraeth Cymru** i sicrhau bod y strategaeth yn cynrychioli'r holl ddioddefwyr ac yn cydnabod cynnydd a blaenoriaethau penodol i Gymru. Mae **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan** wedi cytuno y dylai dioddefwyr fod yn un o'i dair blaenoriaeth, gyda ffocws penodol ar y themâu canlynol yn y flwyddyn i ddod:

- Adolygu gweithrediad y llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVC) yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella ar gyfer dioddefwyr cam-drin/trais domestig;
- Gwella gweithrediad dolenni fideo o bell ar gyfer tystion bregus ac wedi eu brawychu.
- Ymchwilio a gweithredu ar y rhesymau pam fod dioddefwyr yn gadael y system cyfiawnder troseddol gan arwain at achosion fethu; a
- Codi'r defnydd o ddatganiadau effaith y dioddefwr fel modd o roi llais i'r dioddefwr yn y llys.

Yn ein hymweliadau, roeddem eisiau deall beth sy'n gweithio'n dda a ble mae arfer gorau yn darparu buddion cynaliadwy a diriaethol i ddioddefwyr. Nododd ein harolwg o ardaloedd PCC nifer sydd wedi datblygu modelau hyb ac wedi cyd-leoli gwasanaethau i ddarparu un pwynt cyswllt unigol i ddioddefwyr, er enghraifft: Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Gaergrawnt a Northumbria. Mae yna eraill sydd wedi datblygu modelau newydd i wella cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr, er enghraifft Cumbria, sydd wedi datblygu, ar y cyd â Chymorth i Ddioddefwyr a Safer Cumbria, Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer y gwasanaethau maent yn eu comisiynu.

Rydym hefyd wedi ymweld â nifer o wasanaethau cefnogaeth, yn rhai a ariennir yn uniongyrchol gan y Llywodraeth a'r rhai a ariennir trwy PCCs. Roeddem eisiau gwybod sut oedd y darparwyr gwasanaeth hyn yn gweithio'n ymarferol, sut maent yn bodloni anghenion dioddefwyr a pha wersi allem ddysgu. Helpodd yr ymweliadau a chasglu gwybodaeth ni i adeiladu gwell dealltwriaeth o'r anawsterau mae dioddefwyr yn wynebu ac amlygu cymhlethdod ac amrywiaeth eu hanghenion sydd wedi ein galluogi i ddilyn ymagwedd holistaidd i ddyfeisio'r strategaeth.

Fe hwylusom gyfres o **weithdai** gyda gwasanaethau cefnogaeth, asiantaethau cyfiawnder troseddol ac academyddion i gwmpasu, profi a manylu ar ein syniadau. Rydym wedi defnyddio eu gwybodaeth ac arbenigedd o'r sector i helpu tywys cyfeiriad y strategaeth, yn arbennig parthed cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr.

Rydym wedi cyflwyno yn a mynychu digwyddiadau a grwpiau allanol, yn cynnwys **Bwrdd Dioddefwyr Llundain, digwyddiadau Briffio San Steffan** a **Grŵp Dioddefwyr Cymdeithas Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.**

Ymhellach, rydym wedi cyfuno gwaith ar draws llywodraeth trwy Fwrdd Strategaeth Dioddefwyr gyda chynrychiolaeth gan amrywiaeth o adrannau llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Rydym yn credu mai dim ond dull gwirioneddol gydweithredol i alinio ein hamcanion, ein gwaith a'n huchelgais cyffredinol ar gyfer dioddefwyr fydd yn helpu cyflawni ein nodau.

Cynhaliom **holiadur ar-lein** i ddeall mwy am farnau dioddefwyr ar yr hawliau yn y Cod y Dioddefwyr. Yn benodol, roeddem eisiau gwybod pa hawliau oedd dioddefwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf a ble roeddynt yn teimlo oedd angen gwneud gwelliannau. Er nad oedd y gwaith ymgysylltu hwn yn wirioneddol gynrychiadol, roedd yn ddefnyddiol iawn i helpu hysbysu ein syniadau cychwynnol ac yn fan cychwyn i'r gwaith rydym yn ei wneud parthed gwella monitro cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr.

Gyda chymorth **Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu** (APCC) rydym hefyd wedi cynnal arolwg i gael gwell dealltwriaeth o sut oedd cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr yn cael ei fonitro ar lefel leol ac i bennu pa gamau, os o gwbl, oedd yn cael eu cymryd yn lleol i ysgogi gwelliant mewn perfformiad. O ganlyniad, buom yn cwrdd gyda nifer o ardaloedd i drafod eu gwaith yn y maes hwn a byddwn yn parhau gydag ac yn ehangu'r gwaith ymgysylltu hwn yn rhan o'n gwaith parhaus ar wella monitro cydymffurfiad gyda Chod y Dioddefwyr.

Wrth i ni weithredu'r strategaeth, byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda dioddefwyr a'r rhai sy'n ei chefnogi er mwyn cael y cyflawniad yn iawn. Un enghraifft o hyn yw'r model llysoedd troseddol y dyfodol sydd â chynllun wedi arwain gan y defnyddiwr yn graidd iddo.

Trwy ein hymgysylltu, fe nodom yr egwyddorion arweiniol canlynol sydd wedi hysbysu datblygiad y strategaeth:

### Grymuso dioddefwyr a chryfhau eu hawliau

- Sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaethau mae ganddynt hawl i'w cael a bod yr hawliau hynny yn adlewyrchu eu hanghenion.
- Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael gwrandawiad.
- Trin pob dioddefwr mewn modd parchus, sensitif, penodol a phroffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.

### Gwella cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n rhyngweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol

- Helpu dioddefwyr i deimlo'n barod i fynd trwy'r broses cyfiawnder troseddol a'u cefnogi i wneud y dewis priodol.
- Cefnogi dioddefwyr i deimlo mewn rheolaeth pan fyddant yn ymgysylltu gyda'r system cyfiawnder troseddol.
- Helpu dioddefwyr i ddeall sut i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol a'u diweddaru ar bob cam.
- Gwella integreiddiad trwy gydol yr holl broses cyfiawnder troseddol.

### Darparu cefnogaeth gyson, gyfunol, a arweinir gan anghenion ar gyfer holl ddioddefwyr troseddau

- Sicrhau darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol cyson.
- Darparu cefnogaeth a arweinir gan anghenion.
- Darparu gwybodaeth glir, gyson a chywir ar ble i ganfod cefnogaeth.

# Datganiad cydraddoldeb

Rydym wedi ystyried ein rhwymedigaethau cydraddoldeb yn unol ag a149 Deddf Cydraddoldeb 2010.[45] Credwn nad yw'r ymrwymiadau yn y strategaeth yn gwahaniaethu'n uniongyrchol gan na fyddent yn arwain at drin dioddefwyr yn llai ffafriol oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.[46] Credwn y bydd ein newidiadau arfaethedig yn rhai positif ar gyfer dioddefwyr troseddau yn gyffredinol, yn cynnwys y rhai gyda nodweddion gwarchodedig.

Awgryma ein dadansoddiad cychwynnol o'r data y gallai'r Strategaeth Dioddefwyr yn gyffredinol effeithio’n anghymesur ar ddioddefwyr gyda rhai nodweddion gwarchodedig penodol. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y bydd y ffrydiau gwaith a amlinellwyd yn y Strategaeth Dioddefwyr yn arwain at wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon i bobl gyda neu heb y nodweddion gwarchodedig hyn. Hyn yn oed pe sefydlir bod yr effeithiau hyn yn cyfateb i anfantais benodol mewn rhai achosion, mae gweithredu'r diwygiadau yn cynrychioli ymateb cymesur i sicrhau gorfodi effeithiol ac yn cyfrannu at ddarparu gwell amddiffyniad i ddioddefwyr troseddau yn gyffredinol, yn ogystal â dioddefwyr mathau penodol o droseddau.

Yn ogystal â hyn, mae Datganiadau Cydraddoldeb wedi cael, neu mi fyddant yn cael, eu cynhyrchu ar gyfer ffrydiau gwaith penodol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder[47] ac adrannau eraill y llywodraeth y cyfeirir atynt yn y Strategaeth Dioddefwyr.

# Geirfa

**System wrthwynebol** – System o dreial ble mae'r barnwr (a'r rheithgor fel fo'n briodol) yn amhleidiol ac mae cynrychiolwyr cyfreithiol ar gyfer y partïon i'r achos (yr erlyniad a'r amddiffyn mewn treialon troseddol) yn cyflwyno eu hachos gan herio fersiynau ei gilydd o ddigwyddiadau.

**Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC)** – Corff cenedlaethol sy'n cefnogi Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs), a chyrff plismona lleol eraill ar draws Cymru a Lloegr.
http://www.apccs.police.uk/

**Y Coleg Plismona** – Corff proffesiynol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.
www.college.police.uk.

**Llys Apêl** – Mae Adran Droseddol y Llys yn clywed gan achosion yn Llys y Goron. https://www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-appeal-criminal-division

**Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA)** – Yn delio â hawliadau am iawndal gan ddioddefwyr troseddau treisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban sydd wedi eu hanafu'n gorfforol neu'n feddyliol.
https://www.gov.uk/government/organisations/criminal-injuries-compensation-authority.

**Y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICS)** – Cynllun a ariennir gan y Llywodraeth, ac a weinyddir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA).
https://www.gov.uk/guidance/criminal-injuries-compensation-a-guide.

**Llys y Goron** – Y llys ble bydd achosion troseddol yn cael eu clywed gerbron barnwr a rheithgor.
https://www.gov.uk/courts/crown-court.

**Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** – Yn erlyn achosion troseddol, ar ran y Goron, sydd wedi eu hymchwilio gan yr heddlu. Mae'r CPS yn annibynnol o'r heddlu a llywodraeth.
www.cps.gov.uk.

**Swyddogion Cyswllt Teuluol (FLO)** – Swyddogion yr heddlu sydd wedi eu hyfforddi i weithio gyda theuluoedd mewn profedigaeth yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth ynghylch yr ymchwiliad, ac yn casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS)** – yn gweinyddu'r llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr.
https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service.

**Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA)** – Os yw ar gael, dyma brif bwynt cyswllt dioddefwr
https://www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse#independent-domestic-violence-advisers.

**Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol (IICSA)** – Yn ymchwilio i bryderon difrifol fod rhai sefydliadau wedi methu ac yn parhau i fethu amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.
www.iicsa.org.uk.

**Cymdeithas Annibynnol Safonau'r Wasg (IPSO)** – Y Rheoleiddiwr ar gyfer y diwydiant papurau newydd a chylchgronau yn y Deyrnas Unedig.
www.ipso.co.uk.

**Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)** – Yn darparu cefnogaeth barhaus a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol.
www.gov.uk/government/publications/the-role-of-the-independent-sexual-violence-adviser-isva.

**Llys Ynadon** – Llys ble bydd achosion troseddol yn cael gwrandawiad gerbron ynadon neu farnwyr rhanbarth.
www.judiciary.uk/you-and-the-judiciary/going-to-court/magistrates-court/.

**Tribiwnlys Iechyd Meddwl** – Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl).
www.gov.uk/mental-health-tribunal.

**Datrysiadau Tu Allan i'r Llys** – Dewisiadau amgen i erlyn, fel rhybuddion, wrth ddelio gyda throseddu lefel isel.

**Bwrdd Parôl** – Yn cyflawni asesiadau risg ar garcharorion i bennu os gellir eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned. www.gov.uk/government/organisations/parole-board.

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs)** – Etholir i sicrhau bod yr heddlu lleol yn bodloni anghenion y gymuned.

**Canolwr Cofrestredig (RI)** – Yn helpu tystion bregus yn ystod cyfweliadau a'r llys i gyfathrebu eu tystiolaeth yn y ffordd orau bosibl.

**Cynllun Dedfryd Rhy Drugarog (ULS)** – Gellir cyfeirio dedfrydau yn Llys y Goron ar gyfer rhai troseddau difrifol penodol gan y Twrnai Cyffredinol at y Llys Apêl i ystyried os ydynt yn rhy drugarog.
www.gov.uk/ask-crown-court-sentence-review.

**Cod y Dioddefwyr** – Yn sefydlu'r wybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau mae gan ddioddefwyr troseddau hawl i'w derbyn yn ôl y gyfraith gan asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.
https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime.

**Comisiynydd Dioddefwyr** – Yn hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion ac yn annog arfer da o ran eu triniaeth.

**Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS)** – Gall dioddefwyr cymwys dderbyn gwybodaeth ynghylch y troseddwr.
www.victimsinformationservice.org.uk/what-help-you-can-expect/joining-victim-contact-scheme/.

**Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO)** – Staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr sydd yn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.

**Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS)** – Cyfle i ddioddefwyr esbonio sut mae'r drosedd wedi effeithio arnynt. www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement.

**Cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad (VRR)** – Gall dioddefwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau i beidio cyhuddo, i beidio parhau neu i derfynu'r holl achos.
www.cps.gov.uk/legal-guidance/victims-right-review-scheme

**Unedau Gofal Tystion (WCU)** – Yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion mewn achosion sy'n symud trwy'r system cyfiawnder troseddol.

# Troednodiadau

[1] Mae twyll a seiberdroseddau nawr yn atebol am bron i hanner yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr, yn ôl amcangyfrif gan yr Arolwg Troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn y flwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2018. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018. Cododd y nifer o ddynion a gefnogwyd gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru a Lloegr o 6,709 yn 2014/15 i 18,580 yn 2016/17: Canlyniadau o RSCs a ariannwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mehefin 2016 Cronfa Cefnogaeth Trais Menywod 2015/16 – crynodeb Adolygiad Diwedd y Flwyddyn y Weinyddiaeth).

[2] Mae'r wybodaeth yma wedi ei chysodi o asesiad o dystiolaeth llenyddiaeth ryngwladol bresennol ar 'beth sy'n gweithio wrth gefnogi dioddefwyr troseddau', a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr. Wedlock, E a Tapley, J (2016) 'What works in supporting victims of crime: A rapid evidence assessment', Prifysgol Portsmouth, Comisiynydd Dioddefwyr.

[3] ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[4] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018 aeth troseddau yn ymwneud â chyllell neu offeryn miniog i fyny 16% i 40,147. Gweler ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[5] ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: Tablau Ardaloedd Heddlu. (Tabl P3). Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables

[6] O 22 Mehefin 2018, mae'r Gwasanaeth Dynladdiad, wedi ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, wedi adrodd am 82 hysbysiad o ddynladdiad yn Llundain ers Ionawr 2018.

[7] ONS, (2018), Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2017, Troseddau yn ymwneud â defnydd o arfau: tablau data, Tabl 2. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/offencesinvolvingtheuseofweaponsdatatables

[8] ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[9] 454 o droseddau yn 2016, 261 yn 2015 a 166 yn 2014. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin Rhif CBP 8041, 17 Rhagfyr 2017, 'Acid Attacks', Lipscombe, S. a Hutton, G. http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/CBP-804110 ONS (2018) Trosedd yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[11] ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar:https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[12] ONS (2018) Trosedd yng Nghymru a Lloegr: Tablau Ardaloedd Heddlu. (Tablau P2 a P3) Ar gael yma: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables

[13] Tablau Atodiad Troseddau Rhywiol gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) o ymosodiadau rhywiol a brofwyd gan oedolion 16 i 59 oed, yn cynnwys yn ôl math, rhyw a nodweddion personol, a throseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffencesappendixtables (Tabl 8).

[14] Cododd y nifer o ddynion a gefnogwyd gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru a Lloegr o 6,709 yn 2014/15 i 18,580 yn 2016/17: Canlyniadau o RSCs a ariannwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mehefin 2016 Cronfa Cefnogaeth Trais Menywod 2015/16 – crynodeb Adolygiad Diwedd y Flwyddyn y Weinyddiaeth).

[15] 2017 Adroddiad Blynyddol y Deyrnas Unedig ar Gaethwasiaeth Fodern, Llywodraeth EM, Hydref 2017. Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652366/2017_uk_annual_report_on_modern_slavery.pdf

[16] Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017

[17] ONS (2017), Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr – Tablau atodiad. (Tabl 6) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseinenglandandwalesappendixtables

[18] ONS (2018) Tablau atodiad: dynladdiad yng Nghymru a Lloegr. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/appendixtableshomicideinenglandandwales

[19] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2017

[20] Yr holl ystadegau y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad ac eithrio 12% o gynnydd mewn achosion o ddynladdiad. Mae'r ffigwr hwn yn eithrio 35 dynladdiad o ganlyniad i ymosodiadau terfysgol Llundain a Manceinion yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018, a'r 96 achos o ddynladdiad a ddigwyddodd yn Hillsborough yn 1989 ac a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017. Gan eithrio'r digwyddiadau eithriadol hyn, roedd cynnydd mewn nifer o 74 dynladdiad (cynnydd o 12%, hyd at gyfanswm o 701). ONS (2018) Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2018. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018.

[21] Y Swyddfa Gartref (2017), Hate Crime England and Wales, 2016/17. Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652136/hate-crime-1617-hosb1717.pdf

[22] 4,484 achos o Dwyll a Chamddefnydd o Gyfrifiadur, allan o 10,571 achos o'r holl Droseddau CSEW. Tabl Atodiad (Tabl A1) ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixtables. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018

[23] Button M, Lewis C a Tapley J 2009a. A better deal for fraud victims. Llundain: Centre for Counter Fraud Studies https://researchportal.port.ac.uk/portal/files/1924328/NFA_Report_1_15.12.09.pdf a Cross CA, Richards KM, Smith R, (2016) The reporting experiences and support needs of victims of online fraud, Trends and Issues in Crime and Criminal Justice t1-14

[24] Awgrymodd dioddefwyr yn Ne Ddwyrain Lloegr nad oeddynt yn ymwybodol o'r Cod Dioddefwyr a'u hawliau yn y lle cyntaf Tapley. J., Stark. A., Watkins, M. a Peneva, B. (2014) A Strategic Assessment of Support Services for Victims of Crime in the South East. Portsmouth: Prifysgol Portsmouth. Cyfeiriwyd ato yn Wedlock, E. a Tapley, J (2016) What works in supporting victims of crime: A rapid evidence assessment', Prifysgol Portsmouth, Comisiynydd Dioddefwyr

[25] ONS 2018 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), tabl data 4b, gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol, blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2013 i'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/008615dataonvictimsservicesandrestorativejustice yearsendingmarch2013tomarch2017crimesurveyforenglandandwales

[26] Wedlock, E. a Tapley, J (2016) What works in supporting victims of crime: A rapid evidence assessment', Prifysgol Portsmouth, Comisiynydd Dioddefwyr

[27] MOJ (2018). Tablau data ategol: Strategaeth troseddwyr benywaidd. https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

[28] Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid ar wahân i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd troseddau ffordd. Rydym yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd troseddau ffordd yn derbyn cefnogaeth effeithiol ar draws Cymru a Lloegr.

[29] Mesurau Allweddol Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2017/2018 Adroddiad Excel. https://www.cps.gov.uk/key-measures

[30] Datganiadau personol y dioddefwr, yn ôl demograffeg a math o drosedd, blwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2014 i'r flwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2017, Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) https://peoplepopulationandcommunity/crimeandjusticeadhocs/007299victimpersonalstatementsbydemographicsand offencetypeyearendingmarch2014toyearendingmarch2017crimesurveyforenglandandwalescsew

[31] Ni fydd pob dioddefwr yn gallu cael mynediad at gyfiawnder adferol, gan ei fod yn ddibynnol ar nodi pwy yw'r troseddwr, ei ddal ac yna cytuno i gymryd rhan. Er y gallai hyn fynd beth o'r ffordd i esbonio'r ystadegyn yma, fe wyddom ac mae dioddefwyr yn dweud wrthym y gellir gwneud mwy i wella'r cynnig o gyfiawnder adferol. ONS 2018 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), tabl data 6b, gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol, blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2013 i'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/008615dataonvictimsservicesandrestorativejusticeyearsendingmarch2013tomarch2017crimesurveyforenglandandwales

[32] Nid yw arolwg y CPS yn cynrychioli'r holl ddioddefwyr, dim ond y rhai mewn cysylltiad â'r CPS.

[33] Wood, M. Lepanjuuri, K. Paskell, C. Thompson, J. Adams, L. a Coburn, S. (2015), Arolwg Boddhad Dioddefwyr a Thystion, CPS. https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/victims_witnesses/cps_victim_and_witness_survey_sept_2015.pdf

[34] Hamlyn, B., Phelps, A., Turtle, J. a Satter, G. (2004) Are Special Measures Working? Evidence from Surveys of Vulnerable and Intimidated Witnesses. Llundain: Adroddiad Ymchwil y Swyddfa Gartref 283. Cyd Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol (2015) Tyst ar gyfer yr Erlyniad: Nodi Bregusrwydd Dioddefwyr a Thystion mewn Ffeiliau Achosion Troseddol. Llundain: HMIC. Cyfeiriwyd ato yn Wedlock, E. a Tapley, J (2016) What works in supporting victims of crime: A rapid evidence assessment', Prifysgol Portsmouth, Comisiynydd Dioddefwyr.

[35] 'A voice for the voiceless' Adolygiad y Comisiynydd Dioddefwyr i Ddarpariaeth Canolwyr Cofrestredig ar gyfer Plant a Dioddefwyr a Thystion Bregus. Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr. Ionawr 2018.

[36] ONS 2018 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), tabl data 3b, gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol, blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2013 i'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2017 https://www.ons.gov.uk/ peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/008615dataonvictimsservices andrestorativejusticeyearsendingmarch2013tomarch2017crimesurveyforenglandandwales

[37] Effeithlonrwydd yn y system cyfiawnder troseddol. Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mai 2016

[38] Troxel, N., Ogle, C., Cordon, I., Lawler, L. a Goodman, G. (2009). 'Child Witnesses in Criminal Court' in B. L. Bottoms, J. Najdowski, a G. S. Goodman (Gol.) Child Victims, Child Offenders: Psychology and the Law. The Guilford Press. Dyfynnwyd yn Hayes, D., Bunting, L., Lazenbatt, A., Carr, A. a Duffy, J. (2011) The Experiences of Young Witnesses in Criminal Proceedings in Northern Ireland: A Report for the Department of Justice (NI) Prifysgol Queens Belfast a'r NSPCC: Belfast https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/doj/the-expierences -of-young-witnesses-in-criminal-proceedings-in-northern-ireland.pdf

[39] O adborth gan y Comisiynydd Dioddefwyr, gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Tystion, staff HMCTS a'r grŵp ymgysylltu Newid Dioddefwyr a Thystion.

[40] Prosesu gwerthusiad Peilot Croesholi wedi ei Recordio o flaen llaw (Adran 28). MoJ a HMCTS. Medi 2016.

[41] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018), Criminal Court Statistics Bulletin: January to March 2018. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-annual-january-to-march-2018

[42] Review of the law, policy and procedure relating to Parole Board decisions. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ebrill 2018

[43] Mae dioddefwr yma yn cyfeirio ar y dioddefwyr a gyfwelwyd yn rhan o'r adolygiad ac nid yr holl ddioddefwyr.

[44] Hawliau a Phrofiadau Dioddefwyr Troseddwyr gydag Anhwylder Meddwl, Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr. Gorffennaf 2018

[45] Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion ac Adrannau o'r llywodraeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i 'dalu sylw dyledus' i'r angen i: Ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall gwaharddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt); a Meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu).

[46] Yn unol â'n cyfrifoldebau dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi ystyriaeth gynnar i'r naw o nodweddion gwarchodedig parthed dioddefwyr troseddau: hil; rhyw; oed; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd neu gredo; beichiogrwydd a mamolaeth; ailbennu rhywedd; a phriodas/partneriaeth sifil.

[47] Gweler hefyd, asesiadau cydraddoldeb blaenorol yn ymwneud ag ymgynghoriad 2012 'Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion' https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses/; ac ymgynghoriad 2013 Gwella'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/code-victims-crime/

ISBN: 978-1-5286-0780-3
Rhif CCS: CCS0818407350